Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Ysgolion sy'n achosi pryder

Canllawiau drafft ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol

## Canllawiau drafft

Dogfen ganllawiau drafft rhif: 098/2013
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2013

# Ysgolion sy'n achosi pryder

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Prif weithredwyr a chyfarwyddwyr addysg mewn cynghorau sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru; awdurdodau esgobaethol; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i gymdeithasau athrawon a chyrff cenedlaethol a lleol eraill sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru. |
| **Trosolwg** | Mae'r canllawiau statudol hyn yn darparu gwybodaeth am y gofynion deddfwriaethol ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder. Dylai pawb sy'n defnyddio'r canllawiau, yn enwedig awdurdodau lleol, hefyd fod yn gyfarwydd ag union eiriad y ddeddfwriaeth y mae'r canllawiau'n ymwneud â hi yn enwedig Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. |
| **Camau i'w cymryd** | Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hyn wrth ystyried ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder yn eu hardal. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 6050 |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013<br>Deddfau Addysg 1996, 2002, 2005<br>Deddf Dysgu a Sgiliau 2000<br>Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006<br>Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006<br>Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001<br>Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007<br>Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol Interim) (Cymru) 2012<br>*Arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion cynradd o Fedi 2010* (Estyn, 2012)<br>*Arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion uwchradd o Fedi 2010* (Estyn, 2012)<br>*Arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion o Fedi 2010* (Estyn, 2012)<br>*Arweiniad ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc o Fedi 2010* (Estyn, 2012) |

© Hawlfraint y Goron 2013
WG17998

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Crynodeb o ddarpariaethau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013** | **2** |
| **Crynodeb o'r canllawiau** | **5** |
| **Cyd-destun cyfreithiol** | **6** |
| **Cwmpas y cylchlythyr hwn** | **7** |
| **Rolau a chyfrifoldebau** | **8** |
| **1. Ysgolion sy'n achosi pryder** | **11** |
| **2. Pwerau a mathau o ymyrraeth – awdurdodau lleol** | **17** |
| **3. Pwerau Gweinidogion Cymru a mathau o ymyrraeth** | **24** |
| **4. Ysgolion sydd angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol** | **28** |
| **5. Cynnwys rhieni** | **35** |
| **Atodiad 1: Arweiniad pellach ar Fyrddau Gweithredol Interim (BGIau)** | **36** |
| **Atodiad 2: Ffurflen gais am ganiatâd Gweinidogion Cymru i sefydlu BGI** | **41** |
| **Atodiad 3: Prosesau ar gyfer ysgolion sydd angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol** | **44** |
| **Atodiad 4: Rhestr wirio camau gweithredu'r corff llywodraethu** | **45** |
| **Atodiad 5: Rhestr wirio camau gweithredu'r awdurdod lleol** | **46** |

## Cyflwyniad

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") yn cydgrynhoi, egluro a diwygio'r gyfraith mewn perthynas ag ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder.

Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf a'r canllawiau statudol cysylltiedig hyn yn darparu un pwynt cyfeirio ar gyfer awdurdodau lleol wrth iddynt ystyried defnyddio'u pwerau i ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder. Eu nod yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn glir ynglŷn â'u pwerau ymyrryd a rhai Gweinidogion Cymru a'u bod yn defnyddio'u pwerau yn bendant ac yn effeithiol i gyflawni gwelliannau'n gyflym mewn ysgolion sy'n tangyflawni. Mae'r darpariaethau hyn yn ffurfio rhan o raglen weithredu gydunol y Gweinidog Addysg a Sgiliau i godi safonau ysgolion yng Nghymru.

Mae'r diwygiadau'n ymateb i bryderon bod rhai ysgolion mewn llawer o awdurdodau lleol wedi cael parhau i dangyflawni dros gyfnod maith, yn bennaf oherwydd nad yw awdurdodau yn defnyddio'r ystod lawn o'r pwerau sydd ganddynt i wella ysgolion yn ddigon cyflym. Awgryma tystiolaeth mai prin yw'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio o dan amgylchiadau o'r fath.

Dyma ganllawiau statudol sydd wedi'u cyhoeddi o dan Adran 20 y Ddeddf. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hyn wrth ystyried defnyddio'u pwerau ymyrryd er mwyn ymyrryd mewn ysgol sy'n achosi pryder.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'n glir y gweithdrefnau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn er mwyn sicrhau bod ysgolion sy'n achosi pryder yn gwneud y newidiadau angenrheidiol cyn gynted â phosibl.

## Crynodeb o ddarpariaethau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

5. Mae llawer o'r darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf 2013 yn ailddeddfiadau o ddeddfwriaeth flaenorol, ond mae newidiadau wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod llai o ysgolion yn achosi pryder. Mae'r bennod hon yn darparu crynodeb o effeithiau cyfreithiol Rhan 2.

6. Mae Adran 2 o Ddeddf 2013 yn diwygio ac ehangu'r seiliau dros ymyrryd. Mae Seiliau 1 a 2 wedi'u diwygio i alluogi cyhoeddi hysbysiad rhybuddio yn gynnar pan fo pryderon am ysgol o ran ansawdd dysgu a safonau a'i harweinyddiaeth a'i rheolaeth. Mae seiliau 5 a 6 yn newydd i awdurdodau lleol er mai cyfeirio y maent at bwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn ysgol. Mae'r ddwy sail bellach yn cynnwys penaethiaid ysgolion hefyd.

7. Mae'r rhestr o'r rhai a fydd yn derbyn copi o hysbysiadau rhybuddio a anfonir i gorff llywodraethu ysgol sefydledig yn cael ei hymestyn i gynnwys y sawl sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig a'r corff crefyddol priodol (os oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol). Hefyd, mae'n rhaid anfon copi o bob hysbysiad rhybuddio at Weinidogion Cymru.

8. Gall awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru ymyrryd mewn ysgol heb yn gyntaf fod wedi anfon hysbysiad rhybuddio os oes risg cysylltiedig i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson yn galw am ymyrraeth frys.

9. Mae'r Ddeddf yn darparu dull unffurf o ran y terfynau amser ar gyfer ymyrryd a gymerir drwy bennu'r un cyfnod hyblyg i awdurdodau weithredu mewn perthynas â'r holl bwerau ymyrryd. Disgwylir i'r awdurdod barhau i adolygu'r sefyllfa a rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon bod y problemau wedi'u datrys, neu nad yw ymarfer ei bwerau yn briodol am unrhyw reswm arall. Mae'n rhaid i'r awdurdod roi adroddiad ysgrifenedig ar ei gasgliad i'r corff llywodraethu.

10. Yn ôl y Ddeddf, i bob diben, mae gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yr un pwerau. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau'n parhau, sef mai dim ond awdurdodau lleol sy'n gallu atal cyllideb ddirprwyedig ysgol, a dim ond Gweinidogion Cymru sy'n gallu rhoi cyfarwyddyd i ysgol sy'n achosi pryder gael ei ffedereiddio neu ei chau o dan fesuriadau arbennig. Mae Adrannau 5 i 9 yn nodi pwerau ymyrryd awdurdodau lleol mewn perthynas â'r ysgolion hynny sy'n gymwys ar gyfer ymyrraeth:

(i) Mae Adran 5 yn bŵer newydd yn rhannol. Mae'r pŵer i fynnu bod corff llywodraethu'n gofyn am gyngor yn deillio o adran 63 o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r pŵer i fynnu bod corff llywodraethu'n cydweithio o dan Fesur Addysg (Cymru) 2011 yn newydd.

(ii) Mae Adran 6 yn ailddeddfiad o ddeddfwriaeth flaenorol sy'n caniatáu i'r awdurdod lleol benodi llywodraethwyr ychwanegol. Fodd bynnag, os yw'r ysgol yn ysgol sefydledig neu wirfoddol

gyda chymeriad crefyddol, nid oes pŵer bellach i'r awdurdod esgobaethol benodi llywodraethwyr ychwanegol i'r corff llywodraethu er mwyn cael yr un nifer o lywodraethwyr ychwanegol ag a benodwyd gan yr awdurdod lleol.

(iii) Mae Adran 7 yn ailddeddfiad o ddeddfwriaeth flaenorol sy'n rhoi'r pŵer i awdurdod lleol wneud cais i Weinidogion Cymru am ethol Bwrdd Gweithredol Interim (BGI) i ddisodli'r corff llywodraethu cyfan;

(iv) Mae Adran 8 yn ailddeddfiad o ddeddfwriaeth flaenorol sy'n rhoi'r pŵer i awdurdod lleol atal cyllideb ysgol.

(v) Mae Adran 9 yn bŵer cyffredinol newydd sy'n rhoi'r pŵer i awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu a'r pennaeth i gymryd camau.

12. Eglurir yr holl bwerau hyn yn fanylach ym Mhennod X.

13. Mae Adrannau 12 i 16 o Ddeddf 2013 yn nodi pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r ysgolion hynny sy'n gymwys ar gyfer ymyrraeth.

14. Mae Deddf 2013 yn cyflwyno gweithdrefn hysbysiadau rhybuddio i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder sy'n gyffelyb i'r hysbysiadau rhybuddio a gyhoeddir gan awdurdod lleol.

(i) Mae Adran 12 yn rhannol yn ailddeddfu pŵer cyfredol sy'n mynnu bod corff llywodraethu'n gofyn am gyngor. Fodd bynnag, mae ail ran adran 12 sy'n ymwneud â'r pŵer i fynnu bod corff llywodraethu yn cydweithio o dan Fesur Addysg (Cymru) 2011 yn newydd.

(ii) Mae Adran 13 yn ailddeddfiad o ddeddfwriaeth flaenorol sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru benodi llywodraethwyr ychwanegol.

(iii) Mae Adran 14 yn ailddeddfiad o ddeddfwriaeth flaenorol sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru sefydlu BGI.

(iv) Mae Adran 15 yn ailddeddfiad o ddeddfwriaeth flaenorol sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd mewn perthynas â ffedereiddio ysgolion.

(v) Mae Adran 16 yn ailddeddfu deddfwriaeth flaenorol sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r awdurdod lleol gau ysgol o dan Fesurau Arbennig.

15. Mae Pennod X yn darparu rhagor o wybodaeth am bwerau Gweinidogion Cymru.

Mae Adran 20 o Ddeddf 2013 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol y mae'n rhaid iddynt roi sylw iddynt wrth ymarfer eu pwerau mewn perthynas ag ysgolion sy'n achosi pryder. Mae'r pŵer hwn hefyd yn newydd.

## Crynodeb o'r canllawiau

17. Mae Adran 20 o Ddeddf 2013 yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru wrth ymarfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder fel y nodir yn Rhan 2 o Ddeddf 2013.

18. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer awdurdodau lleol wrth iddynt ystyried ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder yn eu hardal. Mae hefyd yn nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd wrth iddynt hwy ymarfer eu swyddogaethau ymyrryd a chydsynio. Mae angen i bawb sy'n defnyddio'r canllawiau hyn, yn enwedig awdurdodau lleol, fod yn gyfarwydd ag union eiriad y ddeddfwriaeth y mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â hi oherwydd nad diben y canllawiau hyn yw cymryd lle deddfwriaeth.

Bydd ysgol yn 'gymwys ar gyfer ymyrraeth' fel a ganlyn:

- os oes un neu fwy o seiliau 1-6 yn bodoli, a bod hysbysiad rhybuddio wedi'i roi i'r corff llywodraethu ond nid yw wedi cydymffurfio â'r hysbysiad hwnnw er boddhad yr awdurdod,
- os ym marn Estyn mae angen cyflawni gwelliannau sylweddol neu fesurau arbennig yn yr ysgol (nid oes angen hysbysiad rhybuddio), neu
- os oes un neu fwy o seiliau 1-6 dros ymyrryd yn bodoli a bod risg cysylltiedig i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson yn galw am ymyrraeth frys (nid oes angen hysbysiad rhybuddio).

Os yw'n gymwys i ymyrryd mewn ysgol, gall awdurdodau lleol ymarfer eu pwerau i: fynnu bod corff llywodraethu'n gofyn am gyngor neu'n cydweithio, rhoi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth a chymryd camau, penodi llywodraethwyr ychwanegol; atal yr awdurdod dirprwyedig dros gyllideb yr ysgol, a phenodi BGI.

Os yw'n gymwys i ymyrryd mewn ysgol, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i fynnu bod corff llywodraethu'n gofyn am gyngor neu'n cydweithio, i benodi llywodraethwyr ychwanegol; i benodi BGI a rhoi cyfarwyddyd i ffedereiddio ysgol.

Lle mae ysgolion angen Mesurau Arbennig, gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r awdurdod lleol gau'r ysgol.

## Cyd-destun cyfreithiol

19. Cyhoeddir y canllawiau hyn gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru.

20. Mae’r cylchlythyr hwn yn disodli Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 004/12. Nid yw’n ddehongliad awdurdodol o ddarpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth - mater i’r Llysoedd yw hynny.

21. Mae ysgolion a gynhelir yn cael eu harolygu’n rheolaidd gan Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru, ('Estyn'). Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff ysgolion sy’n achosi pryder eu dynodi gan Estyn o ganlyniad i arolygiadau o’r fath. Caiff trefniadau arolygiadau eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2005 a ategir gan y darpariaethau yn Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 fel y’u diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2010. Mae’r rheoliadau’n cynnwys manylion ar yr ysbeidiau rhwng arolygiadau, gweithdrefnau arolygu a’r amserlen ar gyfer paratoi adroddiadau arolygu a chynlluniau gweithredu.

22. Caiff adolygiadau o wasanaethau addysg awdurdod lleol eu cynnal gan Estyn o dan Adran 38 o Ddeddf Addysg 1997 sy’n ymwneud â’u swyddogaethau addysg, a’r swyddogaethau a gyflwynir iddynt o dan adrannau 25 a 26 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 mewn perthynas â hyfforddiant neu wasanaethau cymorth ieuenctid.

23. Caiff arolygiadau ardal eu cynnal o dan adran 83 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Caiff yr amserlen ar gyfer paratoi’r adroddiad arolygu a’r Cynllun Gweithredu eu hegluro yn Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) (diwygiwyd) 2001. Gellir dynodi ysgolion yn rhai sy’n achosi pryder hefyd drwy unrhyw ymweliad arolygu neu fonitro a gynhelir gan Estyn o dan adran 24 o Ddeddf 2005.

## Cwmpas y cylchlythyr hwn

24. Canllawiau statudol yw'r rhain i awdurdodau lleol wrth iddynt ystyried ymyrryd mewn ysgol a gynhelir yn eu hardal a nodwyd fel ysgol sy'n achosi pryder. At ddibenion y canllawiau hyn, mae "ysgol sy'n achosi pryder" yn ysgol sydd:

- Yn destun Hysbysiad Rhybuddio a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2013.
- Yn un nad yw'n destun Hysbysiad Rhybuddio ond sy'n cyfateb i un neu fwy o seiliau dros ymyrryd un i chwech a bod risg cysylltiedig i iechyd a diogelwch unrhyw berson yn galw am ymyrraeth frys.
- Ym marn Estyn angen gwelliannau sylweddol.
- Ym marn Estyn angen mesurau arbennig.

25. Mae ysgolion o'r fath yn cynnwys dosbarthiadau chwech a gynhelir (h.y. chweched dosbarth o fewn ysgol sydd hefyd yn addysgu disgyblion o oedran ysgol gorfodol), ond nid yw'n cynnwys ysgolion annibynnol neu ddarpariaeth o fewn y sector addysg bellach.

## Rolau a chyfrifoldebau

26. Mae gan bawb sy’n rhan o’r sector addysg ddiddordeb cyffredin mewn codi safonau cyflawni a gwella ansawdd addysg mewn ysgolion er mwyn osgoi i ysgolion orfod gwneud gwelliannau sylweddol neu wynebu mesurau arbennig. Yn hanesyddol, mae nifer yr ysgolion yng Nghymru y nodwyd eu bod yn achosi pryder yn dilyn arolygiad Estyn wedi bod yn gymharol isel. Fodd bynnag, mae pob parti yn benderfynol o ostwng y nifer a sicrhau gwelliannau parhaus mewn safonau. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i dimau uwch-reoli a chyrff llywodraethu ysgolion sicrhau bod prosesau hunanasesu cadarn a thrwyadl ar waith ac ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu cynlluniau gwella. Dylai fod gan bob ysgol gynlluniau datblygu/gwella effeithiol.

27. Mae ysgolion yn allweddol yn y gwaith o hyrwyddo gwelliannau yn ansawdd y dysgu a’r safonau a gyflawnir gan bobl ifanc. Yn ogystal â bod â rôl ganolog yn y gwaith o ddarparu addysg, mae ganddynt gyfrifoldeb am eu gwelliant eu hunain ac am wneud y defnydd gorau o’r her a’r cymorth sydd ar gael iddynt. Yn benodol, mae’n bwysig eu bod yn gwneud camau gweithredu prydlon ac effeithiol er mwyn meithrin cryfderau a nodi a mynd i’r afael â thangyflawni.

28. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol, ac awdurdodau esgobaethol os yw hynny’n briodol, yw cefnogi a gweithio gyda chyrff llywodraethu a thimau rheoli ysgolion i sicrhau gwelliannau parhaus mewn safonau. Mae angen i awdurdodau lleol fonitro cynnydd ysgolion yn systematig, nodi’n gynnar yr ysgolion sydd â phroblemau a gweithredu’n gyflym i atal anawsterau rhag codi neu waethygu drwy ddarparu cymorth wedi’i dargedu’n effeithiol a/neu ymyrraeth. Felly, mae herio safonau ac ymyrraeth yn hollbwysig er mwyn mynd i’r afael â thangyflawni, codi safonau a gwella ansawdd addysg. Mae’n bwysig bod awdurdodau lleol sy’n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion yn rhoi mecanweithiau effeithiol ar waith ar gyfer monitro perfformiad. Mae’r mecanweithiau hyn yn allweddol er mwyn dod o hyd i broblemau sydd angen eu datrys yn gynnar.

29. Mae gwneud defnydd deallus o ddata er mwyn deall anghenion ysgol a chymryd rôl ragweithiol mewn ymyrraeth gynnar yn elfennau canolog o rôl strategol yr awdurdod lleol. Bydd nodi a datrys problemau’n gynnar yn llai niweidiol i ganlyniadau disgyblion ac yn fwy cost effeithiol na gadael i ysgol lithro i fod yn fethiant difrifol. Hefyd, dylai awdurdodau lleol roi sylw i’r ymrwymiadau a’r camau gweithredu mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a amlinellir yn eu cynlluniau strategol unigol dan arweiniad Byrddau Gwasanaethau Lleol a thrwy hynny sicrhau dull cydgysylltiedig o sicrhau gwelliannau i ysgolion a gwell canlyniadau i bobl ifanc.

30. Mae'r Eglwysi a chyrff crefyddol a gwirfoddol eraill yn gweithio mewn partneriaeth agos ag awdurdodau lleol i ddarparu a chefnogi ysgolion. Mae'r Eglwysi'n gallu dylanwadu'n bwerus ar yr ysgolion y maent yn eu darparu. Dylid rhoi gwybod iddynt am unrhyw bryderon er mwyn iddynt allu cyfrannu'n llawn at eu datrys. Dylai awdurdodau lleol ac awdurdodau Esgobaethol [1] roi sylw penodol i gefnogi ac ymyrryd yn ôl yr angen mewn ysgolion lle mae perfformiad yn annerbyniol o isel neu lle mae materion eraill yn cael effaith niweidiol ar weithrediad yr ysgol.

31. Mae gan y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol ac arweinwyr y cyfundrefnau hynny rôl allweddol yn y gwaith o ddarparu cefnogaeth a her i ysgolion ac awdurdodau lleol, gan nodi a lledaenu arferion da.

32. Cynhelir arolygon ysgolion gan dimau o arolygwyr, dan arweiniad Arolygwr addysg a hyfforddiant Ei Mawrhydi, arolygwr ychwanegol neu arolygwr cofrestredig a fydd yn llunio adroddiad ysgrifenedig. Mae Estyn yn bartner allweddol yn y gwaith o sicrhau gwelliannau. Mae Estyn yn cynnal cysylltiadau gwaith agos ag awdurdodau lleol drwy dimau rhanbarthol gydag arolygwyr cyswllt sydd â chyfrifoldeb mewn perthynas â gwaith awdurdod lleol. Mae hyn yn galluogi arolygwyr Estyn a swyddogion awdurdod lleol i gydweithio er mwyn nodi meysydd sy'n achosi pryder a chefnogi ysgolion sy'n achosi pryder. Mae cysylltiad clir rhwng y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r ddau Fframwaith yn rhannu'r un pwyslais ar wella effeithiolrwydd ysgolion a safonau uwch ar gyfer dysgwyr. Mae'r holl gyfeiriadau yn y ddogfen hon at arolygwr adrodd yn cynnwys Arolygwr addysg a hyfforddiant Ei Mawrhydi, arolygwr ychwanegol ac arolygwr cofrestredig.

33. Mae gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru bwerau i ymyrryd pan fo ysgol yn achosi pryder. Mae awdurdodau lleol eisoes yn gyfrifol am reoli gwelliannau ysgolion drwy ddarparu cymorth trwy fonitro, herio ac ymyrryd mewn ysgolion yn eu hardal. Felly, mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod mai awdurdodau lleol cyffredin sydd yn y sefyllfa orau i ystyried ymyriadau ar gyfer ysgolion yn eu hardal. Felly, os oes angen ymyrryd, yn y lle cyntaf disgwylir i'r awdurdod lleol weithredu. Bydd Gweinidogion Cymru'n ymyrryd dim ond os yw'r awdurdod lleol wedi methu gwneud hynny neu wedi gwneud hynny'n annigonol.

34. Os oes gan awdurdod lleol bryderon am ysgol o ran ansawdd dysgu a safonau a gyflawnir gan ddisgyblion a'i harweinyddiaeth a'i rheolaeth, dylai'r awdurdod weithredu ar unwaith. Dylai pryderon o'r fath fod yn seiliedig ar ystod briodol o dystiolaeth feintiol ac ansoddol sydd ar gael, gan gynnwys dadansoddiad o ddata perfformio ac arsylwi uniongyrchol ar yr ansawdd addysgu. Byddai disgwyl i'r cyfryw ddata gynnwys data presenoldeb a gwaharddiadau'r ysgol.

35. O dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r awdurdod lleol, mewn trafodaeth â chorff llywodraethu a thîm uwch-reoli'r ysgol, weithredu ar unwaith ac yn gynnar i

[1] Yn y cylchlythyr hwn, mae pob cyfeiriad at Esgobaeth ac Awdurdod Esgobaethol yn cyfeirio at yr awdurdod esgobaethol priodol sy'n penodi llywodraethwyr ymsefydlu i ysgolion crefyddol neu ysgolion seciwlar gwirfoddol a gynorthwyir seciwlar. Am ddiffiniad o awdurdodau esgobaethol priodol, ewch i adran 98 o Ddeddf 2013.

nodi meysydd i'w gwella a chytuno ar gamau priodol. Os nad yw materion yn cael eu datrys o fewn cyfnod mesuradwy, dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried a yw'n briodol rhoi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu fel y darparir o dan Adran 3 o Ddeddf 2013.

# 1. Ysgolion sy'n achosi pryder

36. Mae gan awdurdod lleol y pŵer i ymyrryd mewn ysgol a gynhelir:

- os oes un neu fwy o seiliau 1-6 yn bodoli, a bod hysbysiad rhybuddio wedi'i roi i'r corff llywodraethu ond nad yw wedi cydymffurfio â'r hysbysiad hwnnw er boddhad yr awdurdod,
- ym marn Estyn mae'r ysgol angen gwelliannau sylweddol neu fesurau arbennig (nid oes angen hysbysiad rhybuddio), neu
- os oes un neu fwy o seiliau 1-6 dros ymyrryd yn bodoli a bod risg cysylltiedig i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson yn galw am ymyrraeth frys (nid oes angen hysbysiad rhybuddio).

**Hysbysiadau rhybuddio**

37. Disgwylir i awdurdodau lleol ymgysylltu'n effeithiol ag ysgolion drwy gynnal trafodaethau proffesiynol i fynd i'r afael â'r materion sy'n achosi pryder i'r awdurdod lleol. Os yw ysgol yn gwrthod ymgysylltu'n adeiladol â'r her a'r cymorth a gomisiynir neu a ddarperir gan yr awdurdod lleol, dylai'r awdurdod lleol ystyried cyhoeddi hysbysiad rhybuddio er mwyn gweithredu'r cymorth angenrheidiol cyn i'r pethau sy'n achosi pryder arwain at fethiant yr ysgol.

**Pennu'r seiliau ar gyfer hysbysiad rhybuddio**

38. O dan adran 3 o Ddeddf 2013, gellir rhoi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

Sail 1: Mae safonau perfformiad disgyblion yn yr ysgol yn annerbyniol o isel.
Sail 2: Mae methiant wedi bod yn y ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rheoli neu ei llywodraethu.
Sail 3: Mae ymddygiad disgyblion yn yr ysgol neu unrhyw gamau a gymerwyd gan y disgyblion hynny neu eu rhieni yn niweidio'n ddifrifol, neu'n debygol o niweidio'n ddifrifol, addysg unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol.
Sail 4: Mae diogelwch disgyblion neu staff yr ysgol o dan fygythiad (p'un ai drwy fethiant disgyblu neu fel arall).
Sail 5: Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi methu, neu'n debyg o fethu â chydymffurfio â dyletswydd o dan y Deddfau Addysg.
Sail 6: Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau o dan y Deddfau Addysg.

39. Y diffiniad o'r hyn a olygir wrth safonau isel o berfformiad yn Sail 1 yw pan fyddant yn isel yng nghyd-destun un neu ragor o'r canlynol:

- Y safonau y gellid disgwyl yn rhesymol i'r disgyblion eu cyflawni yn yr holl amgylchiadau;

- Lle bo'n berthnasol, y safonau a gyflawnwyd ganddynt yn flaenorol;
- Y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn ysgolion cymaradwy.

40. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio ystod addas o wybodaeth feintiol ac ansoddol i lunio darlun cyflawn o berfformiad yr ysgol cyn penderfynu rhoi hysbysiad rhybuddio. Dylai hyn o leiaf gynnwys y Setiau Data Craidd Cymru Gyfan, ond dylai ymestyn i'r ystod lawn o dystiolaeth feintiol ac ansoddol berthnasol sydd ar gael.

**Tystiolaeth o safonau isel annerbyniol a lefelau cynnydd – Sail 1**

41. Gall tystiolaeth feintiol o 'safonau isel annerbyniol' fod ar un o'r ffurfiau canlynol; fel arfer bydd cyfuniad o lawer o'r dangosyddion hyn yn gymwys:

- Bydd Set Ddata Graidd Cymru Gyfan yr ysgol yn dangos bod cynnydd disgyblion yn gyson is a/neu yn llawer is na disgwyliadau;
- Mae tystiolaeth benodol, ar ôl archwilio data cyd-destunol neu ffynonellau eraill, fod grwpiau o ddisgyblion yn cyflawni'n is na disgwyliadau.
- Dengys data cyrhaeddiad bod yr ysgol yn tangyflawni'n sylweddol ac yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn pynciau craidd.

42. Efallai y bydd tystiolaeth ansoddol i gadarnhau pryderon am safonau'r ysgolion a nodwyd gan y data meintiol ar gael o ffynonellau fel adroddiadau Estyn, arolygiadau pwnc awdurdod lleol, adborth gan rieni, neu ddadansoddiadau o waith disgyblion.

43. Nid yw gwybodaeth o un flwyddyn academaidd yn debygol o fod yn ddigonol i gyfiawnhau hysbysiad rhybuddio, ac eithrio bod y problemau a nodir yn rhai difrifol, neu eu bod yn ymddangos ochr yn ochr â gwendidau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn y mwyafrif o achosion, dylai awdurdodau lleol edrych ar fwy na data blwyddyn yn unig er mwyn pennu a yw safonau'n gwella, dirywio neu amrywio.

**Tystiolaeth o fethiant yn y ffordd y mae ysgol yn cael ei rheoli neu ei llywodraethu - sail 2**

44. Mae ffynonellau gwybodaeth allweddol i gyfiawnhau hysbysiad rhybuddio dan y maen prawf hwn yn cynnwys hunanwerthusiad yr ysgol, gosod targedau, gwerth am arian a'r gallu i wella ac adroddiadau Estyn.

45. Hefyd, gall rhai tueddiadau data ddangos methiant o ran rheoli a llywodraethu. Dylid bod yn ofalus wrth drin data o'r fath, gan y gallent fod yn seiliedig ar resymau nad ydynt o reidrwydd yn ymwneud ag arweinyddiaeth wael yr ysgol.

46. Mae tueddiadau data a allai beri i awdurdodau lleol ymchwilio ymhellach i'r ffordd y mae ysgol yn cael ei rheoli a'i llywodraethi o dan rai amgylchiadau gynnwys:

- Dirywiad ym mhoblogrwydd yr ysgol, a welir pan fo niferoedd disgyblion yn gostwng yn gynt nag y mae newidiadau demograffig yn ei awgrymu;
- Cyfraddau absenoldeb neu driwantiaeth uchel neu gynyddol;
- Cyfraddau uchel ar gyfer trosiant staff neu gwynion staff;
- Adborth gan rieni, neu niferoedd sylweddol neu gynyddol o gwynion gan rieni.
- Tystiolaeth o gorff llywodraethu camweithredol, gan gynnwys diffygion o ran cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethu ysgol.

**Tystiolaeth o Fethiant disgyblu – Sail 4**

Gellid cyfiawnhau hysbysiad rhybuddio o dan y meini prawf hyn lle mae bygythiad i ddiogelwch disgyblion neu staff yr ysgol. Gallai hyn fod oherwydd methiant disgyblu neu fel arall. Mae "methiant" yn golygu problemau lle na all yr ysgol weithredu'n drefnus mwyach, na all staff gadw disgyblaeth, bod nifer fawr o ddisgyblion yn triwanta, neu fod diogelwch neu les disgyblion neu staff mewn perygl. Ysgolion sy'n bennaf gyfrifol am gadw disgyblaeth. Mae awdurdodau lleol wedi cael pŵer wrth gefn ers rhai blynyddoedd i gymryd pa bynnag gamau sydd eu hangen, gan gynnwys rhoi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth i atal neu gywiro unrhyw fethiant o ran disgyblu. Dylent ystyried hyn fel yr opsiwn olaf i'w chymryd. Dim ond ar achlysuron prin iawn y dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r pŵer hwn.

**Cyflwyno hysbysiad rhybuddio**

47. Rhaid cyflwyno hysbysiad rhybuddio yn ysgrifenedig i gorff llywodraethu'r ysgol a rhaid iddo egluro:

- Y seiliau dros yr ymyrraeth.
- Y rhesymau sy'n peri bod awdurdod o'r farn fod y seiliau'n bodoli. Dylai hyn nodi'n fanwl y materion y mae'r pryderon yn seiliedig arnynt ac egluro'r ffeithiau sy'n bodoli yn yr ysgol benodol honno a'r amgylchiadau sy'n achosi pryder.
- Y camau y mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu eu cymryd i fynd i'r afael â'r seiliau dros yr ymyrryd.
- Y cyfnod y dylai'r corff llywodraethu weithredu ('y cyfnod cydymffurfio').
- Y camau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd (o dan un neu fwy o adrannau 5 i 9 o Ddeddf 2013 neu fel arall) os nad yw'r corff llywodraethu yn cymryd y camau gofynnol.(Nid yw'r

awdurdod lleol yn cael ei gyfyngu i gymryd y cam y dywedodd ei fod yn bwriadu ei gymryd yn yr hysbysiad rhybuddio).

48. Yn ogystal â chyflwyno'r hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu, rhaid i'r awdurdod lleol hefyd roi copi i'r pennaeth; ac yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol, y sawl sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig a'r corff crefyddol priodol (os oes gan ysgol gymeriad crefyddol).

| |
|---|
| Mae'n rhaid anfon copi o bob hysbysiad rhybuddio i Lywodraeth Cymru ar yr un adeg gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol: SEF@wales.gsi.gov.uk<br><br>Mae hyn yn ofynnol yn ôl adran 3 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 |

Mae'n rhaid i'r hysbysiad rhybuddio nodi'r cam y mae'r awdurdod lleol yn 'mynnu' bod y corff llywodraethu'n ei gymryd. Mae'n arfer da i awdurdod lleol hefyd ddarparu canllawiau ar gydymffurfio i gyrff llywodraethu. Nid oes gan y corff llywodraethu ddisgresiwn i benderfynu a yw am gydymffurfio ai peidio; mae'n rhaid iddo gydymffurfio. Os na fydd yn cydymffurfio, mae'r awdurdod lleol yn debygol o gael y seiliau (er y bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos) i fynd ymlaen i fynnu bod y corff llywodraethu'n gofyn am gyngor ac yn cydweithio, i roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth a chymryd unrhyw gamau eraill, i benodi llywodraethwyr ychwanegol neu i atal cyllideb ddirprwyedig yr ysgol; neu gallai'r awdurdod lleol gyflwyno cwyn i Weinidogion Cymru o dan Sail 6 dros ymyrryd bod y corff llywodraethu yn ymddwyn yn afresymol wrth fethu cydymffurfio, a gofyn i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu o dan adran 17 o Ddeddf 2013.

49. Pan fo hysbysiad rhybuddio wedi'i roi ond nad oes cydymffurfio wedi bod er boddhad yr awdurdod lleol o fewn y cyfnod cydymffurfio, bydd yn gymwys i ymyrryd yn yr ysgol. Os oes angen ymyrraeth frys, gallai hyn fod cyn lleied ag un diwrnod gwaith ar ôl diwedd y cyfnod cydymffurfio. Nid yw'r awdurdod lleol yn cael ei gyfyngu i gymryd y cam y dywedodd ei fod yn bwriadu ei gymryd yn yr hysbysiad rhybuddio.

50. Gall y corff llywodraethu gyflwyno cwyn i Weinidogion Cymru. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd, o dan adrannau 27 neu 28 o Ddeddf 2013 os yw'n hwylus i wneud hynny, lle bônt yn fodlon fod awdurdod lleol wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu'n afresymol mewn perthynas â swyddogaeth addysg, neu lle nad yw'r awdurdod lleol wedi cyflawni dyletswydd o dan y Deddfau Addysg (gweler seiliau 5 a 6). Gall Gweinidogion Cymru ofyn i Estyn arolygu ac adrodd ar ysgol lle ceir pryderon difrifol.

**Ysgolion sy'n gymwys ar gyfer ymyrraeth oherwydd y barnwyd bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arnynt**

51. Os, yn dilyn arolygiad gan Estyn, caiff ysgol ei dynodi'n un sy'n achosi pryder, caiff ei gosod yn un o'r categorïau canlynol fel y diffinnir yn Adran 44 o Ddeddf Addysg 2005.

*Gwelliant sylweddol* – Mae angen gwelliant sylweddol ar ysgol os yw'n perfformio'n sylweddol is nag y gellid disgwyl yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau iddi berfformio ac nad yw o dan y categori mwy difrifol o fesurau arbennig.

*Mesurau Arbennig – Mae angen sefydlu mesurau arbennig mewn perthynas ag ysgol os nad yw'r ysgol honno'n rhoi safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion ac os nad yw'r unigolion sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol yn yr ysgol.*

52. Os yw'r ysgol eisoes wedi derbyn hysbysiad rhybuddio gan awdurdod lleol ac y canfyddir wedi hynny bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ôl arolygiad Estyn, mae'r dyfarniad yn golygu bod yr awdurdod lleol yn gymwys i ymyrryd boed y cyfnod cydymffurfio yn yr hysbysiad rhybuddio wedi dod i ben ai peidio, neu os yw'r corff llywodraethu wedi/yn bwriadu cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru.

**Hysbysiadau i ddirwyn cyfnod ymyrryd i ben**

53. Pan fo'n gymwys i ymyrryd mewn ysgol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barhau i adolygu'r amgylchiadau a fu'n sail i ddefnyddio'r pŵer. Os yw'n fodlon ei fod wedi mynd i'r afael â'r seiliau dros ymyrryd neu na fyddai defnyddio ei bwerau ymyrryd yn briodol am unrhyw reswm arall, mae'n rhaid iddo hysbysu'r corff llywodraethu o'i gasgliad yn ysgrifenedig. Os yw'r awdurdod lleol yn cyflwyno hysbysiad o'r fath, dylai anfon copi ar yr un adeg i'r pennaeth, ac yn achos ysgol sefydledig, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig a'r corff crefyddol priodol os oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol.

| |
|---|
| Mae'n rhaid anfon copi o bob hysbysiad sy'n dirwyn cyfnod ymyrryd i ben i Lywodraeth Cymru ar yr un adeg gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol: SEF@wales.gsi.gov.uk<br><br>Mae hyn yn ofynnol yn ôl adran 8 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 |

Mae'n parhau'n gymwys i ymyrryd mewn ysgol hyd nes i un o'r canlynol ddigwydd—

- mae'r awdurdod yn cyflwyno hysbysiad fod y seiliau dos ymyrryd wedi'u datrys yn foddhaol neu y byddai defnyddio ei bwerau ymyrryd yn amhriodol am unrhyw reswm arall (gweler paragraff 53);
- mae Gweinidogion Cymru yn pennu nad yw'r pŵer i ymyrryd mewn grym bellach ac yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod lleol a'r corff llywodraethu o'u penderfyniad;
- mae Gweinidogion Cymru yn cyflwyno hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu.

## 2. Pwerau a mathau o ymyrraeth – awdurdodau lleol

54. Lle bo ysgol yn 'gymwys ar gyfer ymyrraeth' ceir nifer o bwerau y gall yr awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru eu defnyddio i hyrwyddo gwelliant ysgol. Eglurir yr ymyriadau hyn yn adrannau 5 i 9 a 12 i 18 o Ddeddf 2013. Yn ôl yr arfer, awdurdodau lleol fydd yn gweithredu yn y lle cyntaf. Dim ond os nad yw awdurdod lleol wedi ymyrryd neu ei fod wedi ymyrryd yn annigonol y bydd Gweinidogion Cymru'n ymyrryd. Rhaid i awdurdod lleol roi rhybudd rhesymol yn ysgrifenedig i'r corff llywodraethu ei fod yn bwriadu ymarfer ei bwerau dan un neu ragor o adrannau 5 i 9.

### Pwerau awdurdod lleol

#### Y gofyniad i sicrhau cyngor neu gydweithio

55. Mae adran 5 yn galluogi awdurdod lleol i fynnu bod corff llywodraethu yn gwneud cytundeb neu drefniadau eraill i ofyn am gyngor a/neu gydweithio lle mae ysgol yn gymwys ar gyfer ymyrraeth.

56. Nid yw cydweithio yn ateb i bob problem, ond gall fod yn ffordd bwerus o sbarduno gwelliannau mewn ysgol. Felly, dylid defnyddio trefniadau cydweithio pan fo hynny'n briodol fel rhan o becynnau cymorth ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder.

**Diben yr ymyrraeth:** I fynnu bod ysgol sy'n achosi pryder yn gofyn am gyngor neu'n cydweithio er mwyn sicrhau gwelliannau.

**Defnydd gorau**: Lle mae'r ysgol neu ffigurau pwysig yn yr ysgol yn gwrthod cydweithio â phartner priodol.

**Gofynion ychwanegol cyn defnyddio pŵer:**

- Mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol ac os yw'r ysgol yn ysgol sefydledig neu wirfoddol, y corff crefyddol priodol neu awdurdod penodi arall.
- Mae'n rhaid i awdurdod lleol ganfod ysgol, coleg neu sefydliad arall neu unigolyn sy'n barod i gynghori neu weithredu fel partner.

57. Trwy gydweithio gall ysgolion sy'n achosi pryder gael gafael ar agweddau newydd, cymorth ac arbenigedd. Yn sgil hynny, mae modd rhoi trefn ar rai ysgolion yn gynt na'r disgwyl, gyda'r gallu i barhau i wella yn y dyfodol, ar ôl gweithio law yn llaw â sefydliad partner.

**Penodi llywodraethwyr ychwanegol**

59. Mae adran 6 yn galluogi awdurdod lleol i benodi llywodraethwyr ychwanegol os yw ysgol yn gymwys ar gyfer ymyrraeth. Mae'r awdurdod lleol yn debygol o benodi llywodraethwyr ychwanegol pan fydd yn awyddus i ysgol gael arbenigedd ychwanegol a gall benodi cynifer o lywodraethwyr ychwanegol ag y gwêl yn briodol.

| |
|---|
| **Diben yr ymyrraeth:** Cryfhau llais yr awdurdod lleol ar y corff llywodraethu a/neu ddarparu arbenigedd ychwanegol i'r llywodraethwyr mewn meysydd allweddol i gynorthwyo gwelliant ysgol.<br><br>**Defnydd gorau:** Pan fydd angen arbenigedd ychwanegol ar y corff llywodraethu, neu pan fydd angen her a chymorth pellach ar y Pennaeth a'r uwch dîm rheoli<br><br>**Gofynion ychwanegol cyn defnyddio'r pŵer hwn:**<br><br>Yn achos ysgol wirfoddol a gynorthwyir, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r corff crefyddol priodol neu gorff penodi arall. Nid oes gan ysgol wirfoddol a gynorthwyir awdurdod i benodi llywodraethwyr sefydledig er mwyn eu gwneud yn fwy niferus na'r llywodraethwyr eraill a benodir gan Weinidogion Cymru.<br><br>Mae'n ymarfer da i'r awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth i'r bwrdd llywodraethu a'r bwrdd penodi am y sawl a benodir cyn cadarnhau'r penodiadau. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r bwrdd llywodraethu godi unrhyw bryderon am benodiad unrhyw unigolyn penodol, neu am delerau eu penodiad.<br><br>Mae'n rhaid i bob llywodraethwr ysgol, gan gynnwys y rhai a benodir gan yr awdurdod lleol, roi sylw priodol i ethos crefyddol yr ysgol. |

**Penodi Bwrdd Gweithredol Interim (BGI)**

60. Mae adran 7 o Ddeddf 2013 yn galluogi'r awdurdod lleol i wneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd i gyfansoddi'r corff llywodraethu fel BGI yn unol ag atodlen 1 o Ddeddf 2013. Mae BGI yn gorff llywodraethu arbennig sy'n disodli corff llywodraethu presennol ysgol. Mae'n rhaid i awdurdod lleol gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn penodi'r Bwrdd. Gellir defnyddio BGI i gynnig her i arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau gwelliant buan neu lle cafwyd dirywiad difrifol ym mherthynas waith corff llywodraethu'r ysgol.

| |
|---|
| **Diben yr ymyrraeth**: Sicrhau newid sylweddol yn arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol drwy ddefnyddio bwrdd llywodraethu a benodwyd yn arbennig am gyfnod dros dro.<br><br>**Defnydd gorau**: Pan na fydd corff llywodraethu'n darparu her ddigonol i'r Pennaeth neu uwch dîm rheoli'r ysgol, pan fydd yn rhwystro cynnydd, neu os |

oes diffyg yn y berthynas waith sy'n cael effaith ar safonau.

**Gofynion ychwanegol cyn defnyddio'r pŵer hwn:**

• Rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r corff llywodraethu ac - os yw'n ysgol sefydliadol neu wirfoddol - yr awdurdod crefyddol priodol neu awdurdod penodi arall.

• Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau caniatâd Gweinidogion Cymru i sefydlu BGI.

61. Wrth ystyried penodi BGI rhaid i'r awdurdod lleol bennu nad yw'r corff llywodraethu cyfredol yn gallu darparu'r arweinyddiaeth angenrheidiol i adfer yr ysgol mor fuan â phosibl. Efallai na fydd corff llywodraethu'r ysgol yn cytuno â barn yr awdurdod lleol, a dyna pam y mae'n rhaid cael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn defnyddio'r pŵer.

**Ymgynghori**

62. Cyn ymarfer yr ymyrraeth hon mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r corff llywodraethu, ac – yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol – y corff crefyddol priodol neu awdurdod penodi arall. Rhaid ymgymryd ag ymgynghori teg pan fydd y cynigion yn cael eu ffurfio a chynnwys digon o fanylion i ganiatáu i'r sawl a effeithir roi ymateb ystyrlon. Dylid caniatáu isafswm o 14 diwrnod[2] i bartïon ymateb. Wrth benderfynu ar y cyfnod priodol o amser i ymgynghori, dylai'r awdurdod lleol ystyried gwyliau banc a gwyliau ysgol.

63. Wrth benderfynu a yw am ganiatáu cais yr awdurdod lleol i amnewid y corff llywodraethu am BGI, rhaid i'r Gweinidog fod yn fodlon ar ddwy sail:

(i) Bod yr awdurdod lleol wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol yn unol â Deddf 2013 mewn perthynas â chyhoeddi hysbysiad rhybuddio ac wedi cynnal ymgynghoriad teg â'r sawl a gaiff eu heffeithio;

(ii) Bod amnewid corff llywodraethu'r ysgol am BGI yn briodol ac yn gyfiawn ar ôl ystyried yr holl ffeithiau ac amgylchiadau.

64. Mae'r Gweinidog yn dibynnu ar Estyn i ddarparu cyngor ar bob mater sy'n ymwneud â'i gylch gwaith ac mae'n debygol o ofyn am gyngor ar yr holl geisiadau i benodi Byrddau Gweithredol Interim

65. Dylid gwneud cais i sefydlu BGI ar y ffurflen yn atodlen 2 a dylid dilyn y canllawiau ar gyfer cwblhau'r ffurflen. Bydd ffurflen wedi'i chwblhau'n briodol yn hwyluso'r ffordd i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad cyflym. Ar ôl sicrhau caniatâd ysgrifenedig gan Weinidog Cymru, rhaid i'r awdurdod lleol ysgrifennu at

[2] Oni nodir yn wahanol, mae'r holl gyfeiriadau at ddiwrnodau neu ddiwrnodau gwaith yn y Cylchlythyr hwn yn cyfeirio at ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, Sul neu Ŵyl Banc neu ran o wyliau ysgol.

y corff llywodraethu gyda rhybudd y bydd y BGI yn cael ei sefydlu (“rhybudd sefydlu”). Dylai’r hysbysiad hwn bennu dyddiad pan fydd y BGI yn dechrau a bydd fel arfer yn gosod dyddiad pan fydd y BGI yn dod i ben

**Cyllideb ddirprwyedig**

66. Mae gan BGI yr hawl i gyllideb ddirprwyedig. Os yw cyllideb ysgol cyn hyn wedi’i dynnu oddi ar y corff llywodraethu, rhaid i’r awdurdod lleol adfer y gyllideb o’r dyddiad y mae’r BGI yn dechrau ar ei waith. Os bydd rhybudd wedi’i roi i’r corff llywodraethu arferol yn pennu dyddiad y bwriedir tynnu’r hawl i gyllideb ddirprwyedig yn ôl, bydd y rhybudd yn peidio â bod yn ddilys o ddyddiad dechrau’r BGI.

**Rôl a dyletswyddau’r Bwrdd Gweithredol Interim (BGI)**

67. Dylai BGI fod yn fesur dros dro a’i brif swyddogaethau yw sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau gwelliant yn yr ysgol yn y dyfodol a hyrwyddo safonau cyrhaeddiad addysgol uchel.

68. Dylid ystyried y BGI fel y corff llywodraethu ar gyfer yr ysgol ac mae unrhyw gyfeiriad yn y Deddfau Addysg at lywodraethwr neu lywodraethwr sefydledig yn briodol fel cyfeiriad at aelod gweithredol interim. Nid yw Rheoliadau a wnaed o dan adran 19(2) neu (3) o Ddeddf Addysg 2002 yn gymwys fel arfer i BGIau. Felly, nid yw llawer o ddarpariaethau Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005 yn gymwys i BGIau. Fodd bynnag, mae darpariaeth ym mharagraff 13 Atodlen 1 o Ddeddf 2013 i gymhwyso rheoliadau a wnaed o dan 19(3) (f) (*talu lwfansau i lywodraethwyr*), (g) (*cyfarfodydd a thrafodion corff llywodraethu*), (i) (*sefydlu pwyllgorau corff llywodraethu*), (k) (*dirprwyo swyddogaethau gan gyrff llywodraethu*) neu (i) (*materion eraill sy’n ymwneud â chyfansoddiad neu weithdrefn cyrff llywodraethu*) ac eithrio rheoliadau sy’n ymwneud â chyfansoddiad cyrff llywodraethu. Ymhellach nid yw offeryn llywodraethu’r ysgol yn weithredol mewn perthynas â’r BGI.

69. Bydd y BGI yn ysgwyddo cyfrifoldebau corff llywodraethu arferol, gan gynnwys rheoli’r gyllideb, y cwricwlwm, staffio, cyflog a rheoli perfformiad a phenodi’r pennaeth a’r dirprwy bennaeth. Gall BGI argymell i awdurdod lleol, neu argymell bod Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i’r awdurdod lleol, y dylid cau ysgol. Fodd bynnag ni chaiff y BGI ei hun gyhoeddi cynigion ar gyfer cau. Os, yn dilyn yr ymgynghoriad statudol a gweithdrefnau eraill, y cytunir y caiff yr ysgol ei chau, dylai’r BGI barhau i weithredu hyd at ddyddiad gweithredu’r cynnig.

**Aelodaeth Bwrdd Gweithredol Interim (BGI)**

70. Fel yr eglurir yn Atodlen 1 o Ddeddf 2013, rhaid i nifer yr aelodau gweithredol interim beidio â bod yn llai na dau; unwaith y bydd y BGI wedi’i sefydlu, gellir penodi aelodau gweithredol interim eraill ar unrhyw adeg. Dylai BGI fod yn grŵp bach gyda diben penodol wedi’i benodi am y cyfnod cyflawn y disgwylir y bydd ei angen er mwyn adfer yr ysgol. Dylid dewis aelodau BGI fesul

achos, yn unol ag anghenion yr ysgol a gellir penodi llywodraethwyr cyfredol i'r BGI.

71. Gellir diddymu aelodaeth yr aelodau gweithredol mewn amgylchiadau arbennig. Gall hyn fod oherwydd analluedd neu gamymddygiad neu os yw eu hysbysiad penodi ysgrifenedig yn darparu ar gyfer terfynu gan yr awdurdod priodol o dderbyn rhybudd. Yr awdurdod priodol fydd yr awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru gan ddibynnu pwy wnaeth y penodiad.

72. Dylai'r awdurdod lleol gynhyrchu hysbysiad penodi ysgrifenedig ar gyfer pob aelod o'r BGI. Dylid anfon copi o'r hysbysiad hwn at bob un o aelodau eraill y BGI; at gorff llywodraethu cyfredol yr ysgol; at Weinidogion Cymru; ac yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol, at yr awdurdod esgobol neu'r awdurdod penodi priodol arall. Gall yr awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru ddewis talu i aelodau gweithredol interim unrhyw gydnabyddiaeth a lwfansau a ystyrir yn briodol. Gall taliadau i ymddiriedolwyr elusen sydd hefyd yn llywodraethwyr achosi nifer o broblemau posibl, gan gynnwys gwrthdaro buddiannau. Mae'r Comisiwn Elusennau wedi llunio canllawiau: *Treuliau a Thaliadau Ymddiriedolwyr*
*http://www.charitycommission.gov.uk/Publications/cc11.aspx*

**Trosi o Fwrdd Gweithredol Interim (BGI) i gorff llywodraethu arferol**

73. Mae angen rheoli'r trosi o BGI i gorff llywodraethu arferol yn ofalus. Mae Atodlen 1 o Ddeddf 2013, yn darparu y gall Gweinidogion Cymru ragnodi trefniadau ar gyfer trosi mewn rheoliadau.

74. Dan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Trosi o Fwrdd Gweithredol Interim) (Cymru) 2012, mae'r broses yn dechrau gyda chyfnod pan fydd corff llywodraethu "cysgodol" yn gweithio ochr yn ochr â'r BGI cyn mynd ati i ysgwyddo'r pwerau'n llawn fel corff llywodraethu.

75. Os na roddwyd y dyddiad y byddai'r BGI yn gorffen gweithio yn yr hysbysiad sefydlu, rhaid i'r awdurdod lleol anfon ail hysbysiad at y corff llywodraethu cysgodol yn pennu'r dyddiad y bydd y BGI yn dod i ben. Dylid anfon copi o'r hysbysiad hwn at holl aelodau'r BGI, at Weinidogion Cymru ac yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol at yr awdurdod esgobol neu'r awdurdod penodi priodol arall.

**Adnoddau perthynol**

Cwestiynau ac Atebion am y BGIau (Atodiad 1)
Ffurflen Gais BGI a nodiadau cyfarwyddyd (Atodiad 2)

**Atal awdurdod dirprwyedig y corff llywodraethu i reoli cyllideb yr ysgol**

76. Mae adran 8 o Ddeddf 2013 yn galluogi awdurdod lleol, drwy hysbysiad ysgrifenedig i gorff llywodraethu'r ysgol, i atal hawl y corff llywodraethu i gyllideb ddirprwyedig. Mae hyn yn weithredol pan fydd ysgol a gynhelir yn gymwys ar gyfer ymyrraeth a bod gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

77. Rhaid rhoi copi o'r hysbysiad i atal yr hawl i gyllideb ddirprwyedig at bennaeth yr ysgol ac i'r corff llywodraethu. Os yw'r awdurdod lleol wedi penodi BGI ni all atal hawl yr ysgol i gyllideb ddirprwyedig.

78. Gall yr awdurdod lleol atal hawl corff llywodraethu i gyllideb ddirprwyedig er mwyn cael rheolaeth ar benderfyniadau staffio a phenderfyniadau gwario eraill. Mae hyn yn caniatáu i'r awdurdod lleol gael gwared ag athrawon neu Benaethiaid sy'n perfformio'n wael os oes angen, neu reoli diffygion cyllidebol. Mae hefyd yn caniatáu i lywodraethwyr ganolbwyntio eu hamser a'u sylw ar flaenoriaethau eraill i sicrhau gwelliant. Os yw'r awdurdod lleol wedi penodi BGI, ni all atal hawl yr ysgol i gyllideb ddirprwyedig. Os yw'r awdurdod lleol wedi tynnu'r hawl i gyllideb ddirprwyedig yn ôl cyn penodi BGI, rhaid adfer y gyllideb pan ddaw'r Bwrdd yn weithredol.

| |
|---|
| **Diben yr ymyrraeth**: Sicrhau rheolaeth dros benderfyniadau staffio a phenderfyniadau gwario eraill er mwyn sicrhau gwelliant.<br><br>**Defnydd gorau**: Pan fydd corff llywodraethu'n darparu her annigonol i'r pennaeth neu'r uwch dîm rheoli yn yr ysgol, neu lle bo rheolaeth y gyllideb yn tynnu sylw'r llywodraethwyr oddi ar y blaenoriaethau gwelliant<br><br>Gofynion ychwanegol cyn defnyddio'r pŵer: Dim |

**Pŵer i roi cyfarwyddyd a chymryd camau**

79. Mae adran 9 yn galluogi awdurdod lleol i roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth a chymryd unrhyw gamau eraill lle mae ysgol yn gymwys ar gyfer ymyrraeth. Mae'n rhaid i'r Cyfarwyddyd fod yn ysgrifenedig a gellir ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd yn y dyfodol.

| |
|---|
| **Diben yr ymyrraeth**: Galluogi awdurdodau lleol i ymyrryd mewn ffordd gymesur ac addas drwy roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu gymryd camau penodol, neu beidio â chymryd camau penodol, heb weithredu ffurfiau mwy eang o ymyrryd.<br><br>**Defnydd gorau**: Pan nad yw'r corff llywodraethu wedi ymarfer ei swyddogaethau neu'n eu hymarfer yn afresymol.<br><br>**Gofynion ychwanegol cyn defnyddio'r pŵer:** Dim |

**Amserlen ar gyfer ymarfer pwerau ymyrryd**

80. Lle bo ysgol yn gymwys ar gyfer ymyrraeth o ganlyniad i gael hysbysiad rhybuddio, mae cyfnod hyblyg yn seiliedig ar

81. Os yw hi'n gymwys i ymyrryd mewn ysgol ar ôl i'r hysbysiad rhybuddio gael ei roi, mae cyfnod hyblyg ar gael cyhyd â bod yr awdurdod lleol yn parhau i

adolygu’r sefyllfa a bod yr awdurdod yn fodlon bod y problemau wedi’u datrys neu na fyddai’n briodol iddo ddefnyddio’i bwerau am unrhyw reswm arall cyn dod â’r cyfnod i ben.

82. Mae ysgol yn parhau’n gymwys ar gyfer ymyrraeth hyd nes y bydd:

- Yr awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i’r corff llywodraethu yn datgan bod y seiliau dros ymyrryd wedi eu trin er boddhad yr awdurdod lleol neu na fyddai’n briodol iddo arfer ei bwerau.
- Gweinidogion Cymru yn defnyddio’u pŵer i ddod â’r cyfnod ymyrryd i ben os yw’r awdurdod yn ymestyn y cyfnod ymyrryd yn afresymol. Mewn achosion o’r fath rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu’r awdurdod lleol a’r corff llywodraethu yn ysgrifenedig nad yw pŵer yr awdurdod i ymyrryd bellach yn gymwys.
- Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi hysbysiad rhybuddio i’r ysgol gan ddefnyddio’u pwerau ymyrryd o dan adran 10 i 19 o Ddeddf 2013.

# 3. Pwerau Gweinidogion Cymru a mathau o ymyrraeth

83. Gall Gweinidogion Cymru arfer pwerau ymyrryd hefyd. Fodd bynnag, disgwylir i'r awdurdod lleol ymyrryd yn y lle cyntaf. Disgwylir i awdurdodau lleol wneud defnydd pendant ac effeithiol o'u pwerau ymyrryd eu hunain (gweler Pennod 2). Ni fydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'u pwerau oni bai bod yr awdurdod lleol wedi methu â gwneud hynny, neu wedi gwneud hynny'n annigonol.

84. Mae ysgolion yn gymwys ar gyfer ymyrraeth gan Weinidogion Cymru o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os yw'r ysgol heb gydymffurfio â hysbysiad rhybuddio gan yr awdurdod lleol er boddhad Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod cydymffurfio a'u bod wedi eu bodloni nad yw'r awdurdod lleol wedi cymryd a'i fod yn annhebygol o gymryd camau digonol i ymdrin â'r sail dros ymyrryd.
- os yw'r ysgol heb gydymffurfio â hysbysiad rhybuddio gan Weinidogion Cymru o fewn y cyfnod cydymffurfio.
- os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 6 dros ymyrryd yn bodoli a bod risg cysylltiedig i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson yn galw am ymyrraeth frys (nid oes angen hysbysiad rhybuddio).
- os yw'r ysgol angen gwelliant sylweddol (nid oes angen hysbysiad rhybuddio).
- os yw'r ysgol angen mesurau arbennig (nid oes angen hysbysiad rhybuddio).

### Hysbysiad rhybuddio

85. Mae Deddf 2013 yn cyflwyno gweithdrefn hysbysiad rhybuddio ar gyfer ymyriadau Gweinidogion Cymru lle nad oedd un yn bodoli o'r blaen. Gall Gweinidogion Cymru roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir os oes un neu fwy o seiliau 1 i 6 dros ymyrryd yn bodoli ac os yw'r awdurdod lleol naill ai heb roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu'r ysgol neu os yw wedi rhoi hysbysiad rhybuddio ond mewn termau sy'n annigonol ym marn Gweinidogion Cymru.

### Amserlen ar gyfer arfer pwerau ymyrryd

86. Os yw hi'n gymwys i ymyrryd mewn ysgol ar ôl i'r hysbysiad rhybuddio gael ei roi, mae cyfnod hyblyg ar gael cyhyd â bod Gweinidogion Cymru yn parhau i adolygu'r sefyllfa a'u bod yn fodlon fod y problemau wedi'u datrys neu na fyddai'n briodol iddynt ddefnyddio'u pwerau am unrhyw reswm arall cyn dod â'r cyfnod i ben.

87. Mae pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn ysgol yn parhau hyd nes y byddant yn hysbysu'r corff llywodraethu a'r awdurdod lleol yn ysgrifenedig fod y

seiliau dros ymyrryd wedi'u datrys neu na fyddai'n briodol iddynt ddefnyddio'u pwerau ymyrryd am unrhyw reswm arall. Rhaid rhoi copi o'r hysbysiad hwn i'r pennaeth ac yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol, i'r person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig ac os yw'n ysgol sydd â chymeriad crefyddol, i'r corff crefyddol priodol.

**Pwerau Gweinidogion Cymru**

**Pŵer sy'n mynnu bod corff llywodraethu'n gofyn am gyngor neu'n cydweithio**

88. Mae Adran 12 o Ddeddf 2013 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu ymrwymo i gontract neu drefniant arall gyda pherson penodedig (a gaiff fod yn gorff llywodraethu ysgol arall) i ddarparu i'r corff llywodraethu wasanaethau penodedig sy'n gynghorol eu natur neu sy'n mynnu ei fod yn cydweithio.

| **Gofyniad ychwanegol cyn defnyddio'r pŵer hwn** |
| --- |
| Cyn y gall Gweinidogion Cymru arfer y pŵer ymyrryd hwn, rhaid iddynt ymgynghori â'r corff llywodraethu, ac yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol – y corff crefyddol priodol neu awdurdod penodi arall. |

**Pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol**

89. Mae adran 13 o Ddeddf 2013 yn caniatáu i Weinidogion Cymru benodi llywodraethwyr ychwanegol ar unrhyw adeg y mae ysgol a gynhelir yn gymwys ar gyfer ymyrraeth; gall Gweinidogion Cymru benodi cymaint o lywodraethwyr ychwanegol ag y gwelant yn dda.

| **Gofyniad cyn defnyddio'r pŵer hwn** |
| --- |
| Cyn y gall Gweinidogion Cymru arfer y pŵer ymyrryd hwn yn achos ysgol wirfoddol a gynorthwyir, rhaid iddynt ymgynghori â'r corff crefyddol priodol neu awdurdod penodi arall. |

90. Gall Gweinidogion Cymru dalu tâl cydnabyddiaeth a lwfansau fel yr ystyrir yn briodol i unrhyw lywodraethwr a benodir. (Sylwadau'r Comisiwn Elusennol yma) Os yw Gweinidogion Cymru wedi arfer y pŵer hwn, ni all yr awdurdod lleol arfer y pŵer i atal hawl y corff llywodraethu i gyllideb ddirprwyedig. Os yw'r awdurdod lleol eisoes wedi atal hawl corff llywodraethu i gyllideb ddirprwyedig, rhaid i Weinidogion Cymru adfer y gyllideb os yw'r corff llywodraethu'n gofyn iddynt wneud hynny. Mae'r ddeddf yn darparu nad oes gan ysgol wirfoddol a gynorthwyir awdurdod i benodi llywodraethwyr sefydledig er mwyn eu gwneud yn fwy niferus na'r llywodraethwyr eraill a benodir gan Weinidogion Cymru.

**Pŵer i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithredol interim**

91. O dan Adran 14 o Ddeddf 2013 gall Gweinidogion Cymru fynnu bod corff llywodraethu ysgol yn cael ei gyfansoddi ar ffurf BGI yn unol ag Atodlen 1 y Ddeddf os yw'r ysgol yn gymwys ar gyfer ymyrraeth. Fel arfer, ni fydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pŵer hwn oni bai bod yr awdurdod yn analluog neu'n amharod i wneud trefniadau o'r fath ei hun, a bod Gweinidogion Cymru o'r farn fod y camau gweithredu'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn gwella'n gyflym.

| **Gofynion ychwanegol cyn defnyddio'r pŵer hwn** |
|---|
| Cyn y gall Gweinidogion Cymru arfer y pŵer ymyrryd hwn, rhaid iddynt ymgynghori â'r awdurdod lleol, y corff llywodraethu, ac – yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol – â'r corff crefyddol priodol neu awdurdod penodi arall.<br><br>Nid yw'r gofyniad hwn i ymgynghori yn gymwys os yw'r awdurdod lleol eisoes wedi gwneud hynny yng nghyswllt cynnig gan yr awdurdod ei hun i benodi aelodau gweithredol interim. |

**Pŵer i roi cyfarwyddyd i ffedereiddio ysgolion**

92. O dan Adran 15 o Ddeddf 2013, gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu ffedereiddio gydag ysgol arall neu ysgolion eraill a gynhelir neu â ffederasiwn sy'n bodoli eisoes. Hefyd, gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i ysgol sy'n achosi pryder ac sy'n rhan o ffederasiwn i ymadael â'r ffederasiwn honno. Gall ffederasiynau effeithiol hyrwyddo ysgolion i wella, gan alluogi ysgolion i rannu adnoddau ac arferion da a chyfleusterau ac arbenigedd.

| **Gofynion ychwanegol cyn defnyddio'r pŵer hwn** |
|---|
| Cyn y gall Gweinidogion Cymru arfer y pŵer ymyrryd hwn, rhaid iddynt ymgynghori â'r awdurdod lleol, y cyrff llywodraethu dan sylw ac – yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol – y corff crefyddol priodol neu awdurdod penodi arall. |

**Pŵer i roi cyfarwyddyd i gau ysgol**

93. Mae Adran 16 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i awdurdod lleol roi'r gorau i gynnal ysgol os yw'r ysgol honno'n gymwys ar gyfer ymyrraeth yn rhinwedd y ffaith fod arni angen mesurau arbennig. Gwneir hyn fel arfer os nad oes unrhyw arwydd bod yr ysgol yn gwella digon o fewn cyfnod derbyniol o amser.

**Gofyniad ychwanegol cyn defnyddio'r pŵer hwn**

Cyn y gall Gweinidogion Cymru arfer y pŵer ymyrryd hwn, rhaid iddynt ymgynghori â'r awdurdod lleol, y corff llywodraethu ac – yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol – y corff crefyddol priodol neu awdurdod penodi arall.

94. Os rhoddir cyfarwyddyd i gau ysgol, bydd disgwyl i'r awdurdod lleol dalu costau terfynu contractau staff a gwneud trefniadau priodol ar gyfer parhau addysg y disgyblion naill ai mewn ysgol newydd neu drwy eu trosglwyddo i ysgol arall.

**Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddyd a chymryd camau**

95. Mae Adran 17 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu neu i'r pennaeth a chymryd unrhyw gamau eraill i ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd. Gwneir y defnydd gorau o'r pŵer os yw'r corff llywodraethu neu'r pennaeth heb gyflawni eu swyddogaethau neu os ydynt yn eu cyflawni mewn modd afresymol.

96. Rhaid i bob Cyfarwyddyd yn y bennod hon fod yn ysgrifenedig a bydd modd eu hamrywio neu eu dirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach.

**Pŵer i gyhoeddi cynigion i gau chweched dosbarth ysgol**

97. Os dyfernir bod angen gwelliant sylweddol ar chweched dosbarth ysgol mewn dau arolwg Estyn dilynol, neu os asesir bod angen mesurau arbennig ar ysgol a gynhelir ond bod angen gwelliant sylweddol ar ei chweched dosbarth, gall Gweinidogion Cymru argymell y dylid cau chweched dosbarth yr ysgol honno.

98. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd penderfyniad sy'n galw am fesurau arbennig neu welliant sylweddol yn berthnasol i'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer pob grŵp oedran mewn ysgol. Fodd bynnag, mae modd i Estyn bennu bod darpariaeth ysgol ar gyfer y chweched dosbarth yn galw am welliant sylweddol. Gellid ffurfio barn o'r fath o ganlyniad i arolwg a gynhelir o dan Adran 28 o Ddeddf Addysg 2005 neu os yw'r ysgol wedi'i chynnwys yn rhan o arolwg ardal o dan Adran 83 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

99. Yn ôl y diffiniad yn Atodlen 7, paragraff 1(2) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2005, mae angen gwelliant sylweddol ar ysgol mewn perthynas â'i chweched dosbarth o dan yr amgylchiadau canlynol:

(a) Nid yw'r ysgol yn rhoi addysg o safon dderbyniol i'w disgyblion sydd dros oedran ysgol gorfodol; neu

(b) Mewn perthynas â'i darpariaeth i ddisgyblion sydd dros oedran ysgol gorfodol, mae'r ysgol yn perfformio gryn dipyn yn waeth nag y gallai o dan yr holl amgylchiadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddi berfformio.

# 4. Ysgolion sydd angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol

100. Mae'r gweithdrefnau a'r amserlenni yn y Bennod hon yn gymwys ar gyfer arolygu pob ysgol a gynhelir. Ar gyfer chweched dosbarth ysgol, gweler Pennod 5 hefyd.

**Pryd y mae ysgol angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol?**

101. Os yw Arolygydd Adrodd yn ystyried bod ysgol yn achosi pryder yn dilyn arolwg o dan Adran 28 o Ddeddf Addysg 2005 neu arolwg ardal o dan Adran 83 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, gwneir dyfarniad bod angen 'mesurau arbennig' neu 'welliant sylweddol' ar yr ysgol (gweler y diffiniadau yn Adran 2 y cylchlythyr hwn).

102. Hefyd, gellir dynodi pa ysgolion sy'n achosi pryder drwy unrhyw arolwg neu ymweliad monitro neu arolygu a gyflawnir gan Estyn o dan Adran 24 o Ddeddf Addysg 2005..

103. Mae llawlyfrau Estyn - 'Arweiniad ar gyfer Arolygu Ysgolion Cynradd a Meithrin', 'Arweiniad ar gyfer Arolygu Ysgolion Uwchradd' ac 'Arweiniad ar gyfer Arolygu Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion' - yn nodi'r meini prawf sy'n cael eu defnyddio gan arolygwyr wrth ddyfarnu a oes angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ysgol. Maent i'w gweld ar wefan Estyn drwy fynd i: http://www.estyn.gov.uk/home.asp

**Beth sy'n digwydd pan ddyfernir bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ysgol?**

104. Fel rhan o'r adborth llafar ar ddiwedd yr arolwg, bydd yr Arolygydd Adrodd yn rhoi gwybod i'r pennaeth ei fod yn argymell fod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar yr ysgol yng ngoleuni diffygion difrifol a nodwyd o ganlyniad i'r arolwg. Gall y cyfarfod hwn gynnwys cynrychiolydd o gorff llywodraethu'r ysgol neu'r awdurdod priodol ar gyfer yr ysgol. Fel arfer, dylai'r llywodraethwyr wahodd yr awdurdod lleol, a'r esgobaeth lle bo'n briodol, i fod yn bresennol yn y cyfarfod adborth, neu ran ohono.

**Amserlenni ar gyfer paratoi adroddiad arolygu a chynlluniau gweithredu**

105. Mae gan yr Arolygydd Adrodd 35 diwrnod gwaith o'r dyddiad y cwblhawyd yr arolwg ysgol Adran 28 i gynhyrchu'r adroddiad arolygu terfynol a chrynodeb. Bydd yr Arolygydd Adrodd yn rhoi drafft o'r adroddiad arolygu i'r ysgol i helpu i wirio'r cynnwys ffeithiol. Mae gan yr ysgol 5 diwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad a chynhyrchu ei ymateb, a chynnig sylwadau ar ei gywirdeb ffeithiol.

106. Os cynhaliwyd yr arolwg gan Arolygydd Cofrestredig, caiff drafft o'r adroddiad arolygu ei gyflwyno i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) ynghyd â gwybodaeth arall yn ôl yr angen. Ar sail y dystiolaeth ddogfennol ac ymweliad cadarnhau gan Arolygydd Ei Mawrhydi (AEM) os ystyrir bod ei angen, bydd

PAEM yn penderfynu a yw'n cefnogi barn yr Arolygydd Cofrestredig ar yr angen am fesurau arbennig neu welliant sylweddol. Fel arfer, cynhelir yr ymweliad cadarnhau o fewn 3 wythnos i dderbyn adroddiad yr Arolygydd Cofrestredig. Diben yr ymweliad cadarnhau yw:

- arolygu'r agweddau hynny o'r ysgol lle canfuwyd diffygion gan yr Arolygydd Adrodd;
- pennu dilysrwydd y dyfarniadau a wnaed;
- gwirio bod yr arolwg ei hun wedi'i gynnal yn briodol.

107. Lle bo angen, gall PAEM ymestyn y terfyn amser fydd gan yr Arolygydd Adrodd i gwblhau'r adroddiad arolygu hyd at uchafswm o 3 mis o'r dyddiad yr oedd i'w gyflwyno'n wreiddiol. Gwneir hyn er mwyn rhoi digon o amser ar gyfer cadarnhau adroddiad arolygu drafft ac asesiad o'r dystiolaeth ddogfennol pan fo Arolygydd Cofrestredig wedi dyfarnu bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ysgol.

**Beth sy'n digwydd os yw PAEM yn anghytuno â chanfyddiadau Arolygydd Adrodd?**

108. Dim ond os yw PAEM yn cytuno â dyfarniad yr Arolygydd Adrodd y bydd ysgol angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol. Os yw PAEM yn anghytuno â'r canfyddiadau, yna dyfarniad PAEM sy'n cael y flaenoriaeth. Fodd bynnag, gall PAEM ffurfio barn fod ysgol y barnodd yr Arolygydd Adrodd fod angen mesurau arbennig arni yn achosi pryder, ond gall benderfynu gosod yr ysgol yn y categori llai difrifol o fod angen gwelliant sylweddol. Hefyd, gall PAEM osod yr ysgol mewn categori mwy difrifol os nodwyd yn wreiddiol bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol ond bod angen mesurau arbennig arni.

**Beth sy'n digwydd pan fo PAEM yn cytuno bod ysgol angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol?**

109. Os oes angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ysgol, yn unol ag Adran 37 o Ddeddf Addysg 2005, mae dyletswydd ar Brif Arolygydd Ei Mawrhydi i hysbysu Gweinidogion Cymru a'r awdurdod lleol heb oedi. Cyhoeddir pob adroddiad arolygu'n electronig ar wefan Estyn a gellir eu darllen drwy fynd i *http://www.estyn.gov.uk/home.asp*.

**Y camau gweithredu sy'n ofynnol gan yr ysgol ar ôl canfod bod arni angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol**

***Cynllun Gweithredu***

110. Mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu baratoi datganiad ysgrifenedig o'r camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad arolygu. Fel arfer, gelwir y datganiad ysgrifenedig yn Gynllun Gweithredu ôl-arolwg a dylai nodi'r cyfnod o amser a neilltuir ar gyfer mynd i'r afael â phob cam gweithredu. Dylai'r awdurdod lleol gydweithio'n glôs â phennaeth yr ysgol a'r corff llywodraethu, a'r Esgobaeth lle bo'n briodol, neu

awdurdod penodi priodol arall, i ddarparu cymorth gyda'r gwaith o lunio'r cynllun gweithredu. Argymhellir y dylai gwaith ar y cynllun gweithredu ddechrau cyn gynted ag y rhoddir rhybudd cynnar fod yr ysgol wedi'i nodi fel ysgol sy'n achosi pryder gan yr Arolygydd Adrodd neu AEM ar ddiwedd yr arolwg.

111. Rhaid cwblhau'r Cynllun Gweithredu o fewn X diwrnod gwaith (terfyn amser statudol) (amserlenni i'w diwygio drwy reoliadau yn dilyn ymgynghori) o'r dyddiad y derbyniodd y corff llywodraethu'r adroddiad arolygu terfynol. Fodd bynnag, gall Gweinidogion Cymru bennu amserlen fyrrach os ydynt o'r farn fod difrifoldeb yr achos yn galw am gyfnod byrrach.

112. Dylai ysgolion anelu at lunio drafft o'r Cynllun Gweithredu a'i roi i Estyn allu gwneud sylwadau arno o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y terfyn amser statudol. Mae hyn yn rhoi amser i Estyn ysgrifennu at yr ysgol i awgrymu gwelliannau i'r Cynllun. Fodd bynnag, rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno'r Cynllun Gweithredu i Estyn erbyn y terfyn amser statudol.

**Beth os nad oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig?**

113. Os nad oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynhyrchu a chyflwyno'r Cynllun Gweithredu. Hefyd, rhaid sicrhau bod y Cynllun Gweithredu ar gael i'r corff llywodraethu o dan yr amgylchiadau hyn.

***Pwy ddylai weld y Cynllun Gweithredu terfynol?***

114. Rhaid cyflwyno copi o'r Cynllun Gweithredu terfynol i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi, Gweinidogion Cymru, yr awdurdod lleol a staff yr ysgol o fewn 2 ddiwrnod gwaith i'w gwblhau. Hefyd, mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu wneud y canlynol:

- sicrhau bod copi o'r Cynllun Gweithredu ar gael i'w ddarllen gan aelodau'r cyhoedd ar adegau ac mewn man sy'n rhesymol;
- darparu copi yn ddi-dâl i unrhyw berson sy'n gofyn am un, neu yn yr achosion hynny a nodir yn y rheoliadau, am dâl bychan (nad yw'n fwy na chost cyflenwi'r copi);
- cymryd camau ymarferol o fewn rheswm i sicrhau bod rhieni pob plentyn a gofrestrwyd yn yr ysgol yn derbyn copi o'r Cynllun Gweithredu neu grynodeb o'r cynllun cyn gynted ag sy'n ymarferol o fewn rheswm.

115. Mewn perthynas â llywodraethwyr sefydledig, rhaid i'r awdurdod priodol anfon copi o'r crynodeb hefyd at y person sy'n penodi'r llywodraethwyr, ac os ydynt yn wahanol, at yr awdurdod sy'n penodi (h.y. yr awdurdod esgobaethol).

**Beth ddylai'r Cynllun Gweithredu ei nodi?**

116. Dylai'r Cynllun Gweithredu nodi'r gwaith a gynigiwyd i alluogi'r ysgol i wella digon i ymdrin â'r diffygion a nodwyd gan Estyn cyn gynted ag y bo modd.

Disgwylir i'r rhan fwyaf o ysgolion wneud y gwelliannau gofynnol o fewn blwyddyn i ganfod fod angen gwelliant sylweddol neu o fewn 2 flynedd i ganfod fod angen mesurau arbennig. Mater i'r ysgolion yw fformat y Cynllun Gweithredu. Mae'n bosibl y bydd ysgolion eisiau defnyddio'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion wrth gynllunio gwelliant. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i'r Cynllun Gweithredu nodi'r canlynol o leiaf ar gyfer pob maes gwella a nodwyd yn yr adroddiad arolygu:

- y camau gweithredu y bwriada'r ysgol eu cymryd;
- y cymorth fydd yr ysgol yn ei gael i fynd i'r afael â'r maes gwella;
- cyfrifoldeb arweiniol dros y cam gweithredu a gynigiwyd;
- yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith gyda cherrig milltir allweddol;
- meini prawf llwyddiant yn cynnwys targedau ar gyfer beirniadu cynnydd;
- adnoddau i'w defnyddio i wneud y gwaith;
- sut y caiff cynnydd ei fonitro e.e. gan bwy, pryd a sut.
- sut y bydd yn rhoi gwybod i rieni a gofalwyr ynglŷn â'r camau gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer yr ysgol;
- sut y bydd yn gofyn am farn rhieni ar y camau gweithredu hyn a sut y bydd yn ystyried y safbwyntiau hynny.

**Pa gamau gweithredu sydd angen i awdurdodau lleol eu cymryd a phryd?**

117. Dylai'r awdurdod lleol gydweithio'n glòs â phennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol, a'r Esgobaeth os yw hynny'n briodol, i lunio Cynllun Gweithredu'r ysgol. O dan Adran 40 o Ddeddf Addysg 2005, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol baratoi datganiad ysgrifenedig ar unrhyw gamau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r adroddiad arolygu sy'n nodi bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ysgol. Dylai'r datganiad ysgrifenedig nodi'r cyfnod o amser a gynigir ar gyfer cymryd y camau gweithredu hyn. Rhaid cynhyrchu'r datganiad ysgrifenedig o gymorth o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y derbyniodd yr awdurdod lleol gopi o Gynllun Gweithredu'r ysgol neu o fewn 12 diwrnod gwaith i'r dyddiad y disgwylir i'r awdurdod priodol fod wedi dosbarthu Cynllun Gweithredu'r ysgol (pa un bynnag sydd gynharaf). Os nad yw'r awdurdod lleol yn bwriadu gweithredu, rhaid iddo ddal i gynhyrchu datganiad ysgrifenedig yn nodi ei resymau.

118. Rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno copi o'r datganiad i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi, Gweinidogion Cymru ac, yn achos ysgol wirfoddol a gynorthwyir, i'r person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, ac os yw'n wahanol, at yr awdurdod penodi priodol hefyd (h.y. yr awdurdod esgobaethol). Os mai'r awdurdod lleol yw'r awdurdod priodol ar gyfer yr ysgol, nid oes gofyn paratoi datganiad ysgrifenedig (gan mai'r awdurdod lleol fydd wedi paratoi Cynllun Gweithredu'r ysgol).

119. Gall Gweinidogion Cymru bennu cyfnod byrrach ar gyfer paratoi'r datganiad ysgrifenedig os ydynt o'r farn fod difrifoldeb yr achos yn galw am wneud hynny. Nid yw'r cyfnodau amser y cyfeiriwyd atynt mewn perthynas â chwblhau datganiadau ysgrifenedig yn cynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Gwener y Groglith, dydd Nadolig nac unrhyw wyliau banc arall, ond mae gwyliau ysgol arall yn gynwysedig yn y cyfnod amser.

120. Mae'n arfer da i'r ysgol, yr awdurdod lleol, a'r Esgobaeth lle bo'n briodol, weithio'n glòs er mwyn paratoi cynlluniau sy'n ategu'i gilydd. Mae'n bwysig i'r awdurdod lleol lunio datganiad ysgrifenedig sy'n gweddu i anghenion penodol pob ysgol.

**Beth ddylai datganiad yr awdurdod lleol ei gynnwys?**

121. Mater i bob awdurdod lleol yw'r fformat ar gyfer y datganiad ysgrifenedig.

Fodd bynnag, awgrymir y dylai'r datganiad gynnwys y canlynol:

- asesiad o Gynllun Gweithredu'r corff llywodraethu a gallu'r ysgol i weithredu'r cynllun;
- manylion am y camau gweithredu y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i ymdrin â'r meysydd gwella a nodwyd yn yr adroddiad arolygu;
- cyfrifoldebau a nodwyd ar gyfer sicrhau bod y camau gweithredu'n digwydd;
- terfynau amser a cherrig milltir allweddol;
- meini prawf llwyddiant yn cynnwys targedau ar gyfer beirniadu cynnydd;
- manylion ynglŷn â sut y caiff cynnydd ei fonitro e.e. gan bwy, pryd a sut;
- adnoddau i'w defnyddio i wneud y gwaith;
- p'un a yw'r awdurdod lleol yn bwriadu defnyddio'i bwerau ymyrryd i fynnu bod corff llywodraethu yn gofyn am gyngor neu'n cydweithio, rhoi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth a chymryd unrhyw gamau eraill, penodi llywodraethwyr ychwanegol, atal cyllideb ddirprwyedig yr ysgol neu sefydlu BGI yn lle'r corff llywodraethu;
- sut y bydd yn rhoi gwybod i rieni a gofalwyr ynglŷn â'r camau gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer yr ysgol. Sut y bydd yn gofyn am farn rhieni ar y camau gweithredu hyn a sut y bydd yn ystyried y safbwyntiau hynny (Newydd)

**Pwy sy'n cymeradwyo Cynllun Gweithredu'r ysgol a datganiad yr awdurdod lleol?**

122. Bydd Estyn yn gwerthuso Cynllun Gweithredu'r ysgol a datganiad ysgrifenedig yr awdurdod lleol ac yn ysgrifennu at y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru i ddweud a yw'n ystyried bod y cynllun gweithredu a'r datganiad yn gweddu i'r diben o sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol o fewn amser rhesymol. Yn y cyd-destun hwn, rhagwelir yn y rhan fwyaf o achosion y dylai ysgolion anelu i wneud digon o gynnydd i gael ei symud allan o fesurau arbennig o fewn 2 flynedd ac o'r angen i sicrhau gwelliant sylweddol o fewn blwyddyn, ond rhaid edrych ar bob achos yn ôl ei haeddiant (gweler paragraffau X i X isod).

## Monitro ysgolion sy'n achosi pryder

### *Ysgolion sydd angen mesurau arbennig*

123. I ysgolion sydd angen mesurau arbennig, yn y rhan fwyaf o achosion bydd Estyn yn ymweld â'r ysgol i fonitro bob tymor gan ddechrau yn ystod y tymor ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Bydd Estyn yn asesu'r cynnydd a wnaed gan yr ysgol a'r awdurdod lleol ar weithredu'r cynllun a'r datganiad ysgrifenedig er mwyn ymdrin â'r materion a nodwyd yn adroddiad arolygu'r ysgol. Bydd Estyn yn ysgrifennu at Gadeirydd y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru ar ôl pob ymweliad monitro i adrodd ar y cynnydd a wnaed gan yr ysgol ers yr arolwg gwreiddiol.

124. Bydd y llythyr yn cynnwys dyfarniad PAEM ar a yw'r ysgol yn dal i fod angen mesurau arbennig. Bydd Estyn yn parhau i gynnal ymweliadau monitro hyd nes y bydd PAEM o'r farn bod yr ysgol wedi gwella digon i gael ei symud allan o fesurau arbennig.

125. Os asesir bod y cynnydd yn anfoddhaol, gall awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ystyried yr angen i arfer eu pwerau ymyrryd statudol mewn perthynas â'r ysgol (gweler Pennod 4 y canllawiau hyn).

### *Ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol*

126. Ar gyfer ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Estyn yn ail-arolygu'r ysgol tua deuddeg mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Bydd Estyn yn asesu'r cynnydd a wnaed gan yr ysgol a'r awdurdod lleol ar weithredu'r cynllun a'r datganiad ysgrifenedig er mwyn ymdrin â'r materion a nodwyd yn adroddiad arolygu'r ysgol. Anfonir adroddiad ar yr ymweliad at Gadeirydd y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru. Bydd y llythyr yn cynnwys dyfarniad PAEM ar a yw'r ysgol yn dal i fod angen gwelliant sylweddol.

127. Lle bydd Estyn yn ystyried bod cynnydd da wedi'i wneud i ymdrin â'r meysydd sy'n achosi pryder a nodwyd yn yr arolwg, gall PAEM ddyfarnu y gellir symud yr ysgol o'r categori 'angen gwelliant sylweddol'. Lle bydd ysgol wedi gwneud peth cynnydd ond lle bernir fod angen gwelliant sylweddol arni o hyd,

gall Estyn gynnal ymweliad monitro pellach ar ôl 6 mis arall. Os yw'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas, bydd Estyn yn adrodd fel ym mharagraff 122 uchod. Os asesir bod y cynnydd yn anfoddhaol, bydd PAEM yn ystyried yr angen am fesurau arbennig ar gyfer yr ysgol.

## 5. Cynnwys rhieni

128. Mae ymgysylltiad cryf â rhieni yn gallu effeithio'n gadarnhaol ar forâl yr ysgol a'i chymuned, ar berfformiad cyffredinol yr ysgol, ac ar gyflawniad addysgol disgyblion unigol.

129. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau bod rhieni'n derbyn gwybodaeth briodol ac yn cael eu cynnwys pan fo ysgol eu plentyn yn achosi pryder. Rydym yn disgwyl y bydd cynllun gweithredu'r ysgol a datganiad yr awdurdod lleol o'r cymorth ar gyfer ysgol sydd angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig yn nodi sut y byddant yn cyfathrebu â rhieni'r ysgol ac yn gofyn am eu barn.

130. Mae gan rai awdurdodau lleol beth profiad eisoes o arfer da wrth ymgysylltu â rhieni a gofalwyr pan fo ysgol yn cael ei chynnwys mewn categori Estyn, er enghraifft:

- Cynnal cyfarfod i rieni er mwyn egluro canfyddiadau'r arolwg ac amlinellu'r cynlluniau ar gyfer gwella;
- Cynhyrchu cylchlythyr rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am y cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud;
- Fforwm rhieni rheolaidd lle gall rhieni siarad â'i gilydd ac ag aelod uwch o staff neu lywodraethwr ynglŷn â gwneud pethau'n well yn yr ysgol.
- Grwpiau i gynnwys rhieni ar faterion arbennig sydd angen i'r ysgol fynd i'r afael â nhw; er enghraifft, grŵp o rieni, llywodraethwyr, staff a swyddog lles addysg i gyfarfod â'i gilydd er mwyn gweithio ar wella lefelau presenoldeb yr ysgol.

# Atodiad 1: Arweiniad pellach ar Fyrddau Gweithredol Interim (BGIau)

## Byrddau Gweithredol Interim (BGIau) - Cwestiynau ac atebion

1. Mae Deddf 2013 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru gyfansoddi corff llywodraethu ysgol o BGI. Bwriedir i'r pwerau i benodi BGI gael eu defnyddio mewn amgylchiadau pan fernir nad yw corff llywodraethu yn gallu gwella perfformiad ac adfer ysgol hyd yn oed gyda chymorth. Llywodraethir BGIau gan y darpariaethau a nodir yn Adran Atodlen 1A o Ddeddf 2013. Effaith penodi BGI yw bod swydd pob un o'r llywodraethwyr presennol yn dod i ben ar ddyddiad penodi'r BGI.

### Beth yw'r weithdrefn i awdurdod lleol ar gyfer penodi BGI?

2. Rhaid i'r awdurdod lleol gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn y gall benodi BGI. Dylai'r awdurdod lleol roi eglurhad ysgrifenedig i'r corff llywodraethu (a lle bo'n briodol, i gyrff perthnasol eraill, yn cynnwys yr esgobaeth) ynglŷn â'r bwriad i ymgeisio am BGI a chadw manylion eu hymatebion.

3. Gall awdurdod lleol wneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd i sefydlu BGI yn lle corff llywodraethu ysgol lle bydd ysgol heb gydymffurfio â Hysbysiad Rhybuddio neu os yw Estyn wedi nodi yn dilyn arolwg fod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol arni. Rhaid i'r awdurdod lleol gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno hysbysiad i'r corff llywodraethu fod BGI yn mynd i gael ei benodi.

4. Penodir y BGI gan yr awdurdod lleol ac mae'n mabwysiadu holl gyfrifoldebau corff llywodraethu. Yn achos ysgolion sefydledig a gwirfoddol, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r esgobaeth neu awdurdod penodi arall cyn gwneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd i sefydlu BGI.

5. Y BGI sydd â'r cyfrifoldeb o oruchwylio prosesau datblygu a chyflawni gwaith i sicrhau bod y disgyblion yn derbyn addysg o safon dderbyniol. Ar ôl cyfnod, bydd corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn arferol yn cymryd lle'r BGI, gan weithredu mewn modd cysgodol cyn mabwysiadu pwerau llawn corff llywodraethu.

## Ffeithiau allweddol

### Beth yw rôl BGI?

6. Dylid ystyried y BGI fel corff llywodraethu'r ysgol tra bydd yn weithredol. Bydd yn ysgwyddo holl gyfrifoldebau corff llywodraethu, yn cynnwys rheoli'r gyllideb, y cwricwlwm, staffio, cyflogau a rheoli perfformiad a phenodi pennaeth a dirprwy bennaeth. Prif swyddogaethau'r BGI fydd sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer gwelliannau pellach yn yr ysgol a hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol. Gall y BGI bennu ei weithdrefnau ei hun a gwneud trefniadau fel y gwêl yn dda ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau.

7. Yn gyffredinol, nid yw'r rheoliadau a wnaed o dan adran 19(2) neu (3) o Ddeddf Addysg 2002 yn gymwys ar gyfer BGIau. O'r herwydd, nid yw nifer o'r darpariaethau yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005 yn gymwys mewn perthynas â BGIau. Ymhellach, nid oes grym i offeryn llywodraethu'r ysgol mewn perthynas â'r BGI. Fodd bynnag, ceir darpariaeth ym mharagraff 13 o Atodlen 1 o Ddeddf 2013 ar gyfer cymhwyso rheoliadau a wnaed o dan adran 19(3) (f) (talu lwfansau i lywodraethwyr), (g) (cyfarfodydd a thrafodion corff llywodraethu), (i) (sefydlu pwyllgorau corff llywodraethu), (k) (dirprwyo swyddogaethau gan gyrff llywodraethu) neu (i) (materion eraill sy'n ymwneud â chyfansoddiad neu weithdrefn cyrff llywodraethu) ac eithrio'r rheoliadau sy'n ymwneud â chyfansoddiad cyrff llywodraethu.

**Pwy fydd aelodau'r BGI?**

8. Bydd nifer o Aelodau Gweithredol Interim yn perthyn i'r BGI. Ni phennwyd uchafswm o Aelodau ar gyfer BGI ond rhaid bod o leiaf ddau aelod. Fodd bynnag, wrth wneud cais i Weinidogion Cymru am gael sefydlu BGI, bydd angen i'r awdurdod lleol nodi'r ystod o arbenigeddau a gesglir ynghyd a pham y mae'r awdurdod yn credu y bydd y BGI mewn sefyllfa well na'r corff llywodraethu presennol i sicrhau gwelliant. Bydd angen cynnwys amlinelliad cryno o sgiliau a phrofiad yr Aelodau arfaethedig gyda'r cais. Gellir penodi llywodraethwr presennol fel aelod o'r BGI. Gall yr awdurdod priodol enwebu un o Aelodau'r BGI i fod yn gadeirydd y BGI. Rhaid i bob penodiad i'r BGI fod yn ysgrifenedig gan nodi telerau'r penodiad. Gall yr awdurdod priodol ddiswyddo aelod o BGI ar unrhyw adeg am gamymddwyn neu anghymwyster a hefyd, gall yr awdurdod priodol derfynu ei benodiad drwy hysbysiad.

**Am ba hyd y penodir Aelodau Gweithredol Interim?**

9. Rhagwelir y caiff aelodau eu penodi am y cyfnod llawn fydd ei angen ar gyfer adfer yr ysgol.

**Beth fydd y meini prawf ar gyfer dethol Aelodau Gweithredol Interim?**

10. Dylid dewis pob Aelod fesul unigolyn yn unol ag anghenion yr ysgol. Gellir penodi llywodraethwyr presennol i'r BGI. Ar ôl sefydlu'r BGI, gellir penodi Aelodau Gweithredol Interim eraill ar unrhyw adeg. Mae hawl gan yr awdurdod lleol i ddiswyddo Aelodau Gweithredol Interim. Dylai'r awdurdod lleol gynhyrchu hysbysiad o benodiad ar gyfer pob Aelod Gweithredol Interim. Dylid anfon copïau o'r hysbysiad hwn at bob aelod arall o'r BGI, corff llywodraethu'r ysgol, Gweinidogion Cymru ac – yn achos ysgolion sefydledig neu wirfoddol – at yr awdurdod esgobaethol neu awdurdod penodi priodol arall. Hefyd, gall yr awdurdod lleol enwebu Aelod Gweithredol Interim i gadeirio'r BGI.

**Taliad cydnabyddiaeth**

11. Gall awdurdodau lleol ddewis talu pa bynnag swm yr ystyriant yn briodol i Aelodau Gweithredol Interim. Gall taliadau i ymddiriedolwyr elusen sydd hefyd yn llywodraethwyr beri nifer o broblemau posibl gan gynnwys gwrthdaro buddiannau. Mae'r Comisiwn Elusennau wedi llunio canllawiau: [Treuliau a Thaliadau Ymddiriedolwyr <http://www.charitycommission.gov.uk/Publications/cc11.aspx>](http://www.charitycommission.gov.uk/Publications/cc11.aspx) *http://www.charitycommission.gov.uk/Publications/cc11.aspx*

**Cyllideb ddirprwyedig**

12. Mae gan BGI yr hawl i gyllideb ddirprwyedig. Os yw cyllideb ysgol cyn hyn wedi'i dynnu oddi ar y corff llywodraethu, rhaid i'r awdurdod lleol adfer y gyllideb o'r dyddiad y mae'r BGI yn dechrau ar ei waith. Os bydd rhybudd wedi'i roi i'r corff llywodraethu arferol yn pennu dyddiad y bwriedir tynnu'r hawl i gyllideb ddirprwyedig yn ôl, bydd y rhybudd yn peidio â bod yn ddilys o ddyddiad dechrau'r BGI.

**A gaiff BGI argymell y dylid cau ysgol?**

13. Gall BGI argymell i awdurdod lleol y dylid cau ysgol. Fodd bynnag, ni chaiff y BGI fynd ati ei hun i gyhoeddi cynigion i gau ysgol. Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol a gweithdrefnau eraill, os cytunir y bydd yr ysgol yn cau, dylai'r BGI barhau'n weithredol nes dyddiad gweithredu'r cynnig.

**Penodi BGI mewn ysgol sefydledig neu wirfoddol**

14. Os yw awdurdod lleol yn dymuno penodi BGI mewn ysgol sefydledig neu wirfoddol, rhaid iddo ymgynghori â'r awdurdod esgobaethol neu awdurdod penodi arall cyn gwneud cais i Weinidogion Cymru. Bydd y Gweinidogion yn disgwyl gweld tystiolaeth fod yr Esgobaeth neu'r awdurdod penodi wedi'u cynnwys yn llawn mewn unrhyw benderfyniad i sefydlu BGI.

15. Disgwylir i bob BGI sicrhau bod gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol yn cael ei gwarchod a'i datblygu gan gynnal cymeriad yr ysgol.

**Trosi o Fwrdd Gweithredol Interim (BGI) i gorff llywodraethu arferol**

16. Mae angen rheoli'r trosi o BGI i gorff llywodraethu arferol yn ofalus. Mae Atodlen 1A o Ddeddf Safonau a Fframwaith ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002, yn darparu y gall Gweinidogion Cymru ragnodi trefniadau ar gyfer trosi mewn rheoliadau. O dan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Trosi o Fwrdd Gweithredol Interim) (Cymru) 2012, mae'r broses yn dechrau gyda chyfnod pan fydd corff llywodraethu "cysgodol" yn gweithio ochr yn ochr â'r BGI cyn mynd ati i ysgwyddo'r pwerau'n llawn fel corff llywodraethu.

Os na roddwyd y dyddiad y byddai'r BGI yn gorffen gweithio yn yr hysbysiad sefydlu, rhaid i'r awdurdod lleol anfon ail hysbysiad at y corff llywodraethu cysgodol yn pennu'r dyddiad y bydd y BGI yn dod i ben. Dylid anfon copi o'r

hysbysiad hwn at holl aelodau'r BGI, at Weinidogion Cymru ac yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol at yr awdurdod esgobol neu'r awdurdod penodi priodol arall.

**Pryd bydd y corff llywodraethu cysgodol yn mabwysiadu pwerau llawn corff llywodraethu?**

17. Dylai'r corff llywodraethu "cysgodol" weithio ochr yn ochr â'r BGI am o leiaf chwe mis cyn mabwysiadu cyfrifoldeb llawn fel corff llywodraethu'r ysgol. Mewn rhai achosion, gallai fod angen i gorff llywodraethu cysgodol weithio ochr yn ochr â BGI am fwy na chwe mis. Er enghraifft, byddai blwyddyn academaidd lawn yn caniatáu i'r corff llywodraethu cysgodol brofi blwyddyn gyflawn o'r cylch cynllunio a rheoli.

18. Dylai aelodau o'r corff llywodraethu cysgodol fynychu cyfarfodydd y BGI i arsylwi er mwyn hwyluso'r gwaith o adfer yr ysgol i drefniadau llywodraethu arferol.

**Cais i Weinidogion Cymru er mwyn sefydlu BGI**

19. Rhaid i awdurdod lleol gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn y gall benodi BGI (gan ddefnyddio'r ffurflen gais yn atodiad 2). Pan fo awdurdod lleol yn dymuno sefydlu BGI i gymryd lle corff llywodraethu, rhaid iddo:

(i) ymgynghori â'r corff llywodraethu presennol, ac yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol, â'r esgobaeth neu awdurdod penodi arall; *Rhaid ymgymryd ag ymgynghori teg pan fydd y cynigion yn cael eu ffurfio a chynnwys digon o fanylion i ganiatáu i'r sawl a effeithir roi ymateb ystyrlon. Dylid caniatáu isafswm o 14 diwrnod i bartïon ymateb, ond gall pob achos fod yn wahanol a gall hyd yr amser ar gyfer ymgynghori amrywio*."

(ii) Cwblhau ac anfon cais at Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu BGI – gan ddefnyddio'r ffurflen gais yn Atodiad 2; ac ar ôl cael caniatâd gan Weinidogion Cymru:

(iii) ysgrifennu at y corff llywodraethu yn ei hysbysu fod y BGI yn cael ei sefydlu ("hysbysiad sefydlu"). Dylai'r llythyr hwn nodi pryd bydd y BGI yn cychwyn, a dylai ddynodi pryd y rhagwelir y daw'r BGI i ben â'i waith. Yn achos ysgolion sefydledig a gwirfoddol, dylid rhoi copi o'r llythyr hwn i'r esgobaeth neu awdurdod penodi priodol arall.

20. I gael arweiniad pellach, cysylltwch â'r adran:
Pennaeth yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays

Caerdydd
CF10 3NQ
Rhif ffôn: (029) 2082xxxx

## Atodiad 2: Ffurflen gais am ganiatâd Gweinidogion Cymru i sefydlu BGI

### Cais i Weinidogion Cymru am sefydlu Bwrdd Gweithredol Interim (BGI) i gymryd lle Corff Llywodraethu Ysgol

| **Ysgol Awdurdod Lleol** |
|---|
| 1. Disgrifiad cryno o'r ysgol, yn cynnwys statws (cymunedol, sefydledig, a gynorthwyir) lleoliad, rhif ar y gofrestr. |
| |
| 2. Dyddiad yr Hysbysiad Rhybuddio i'r corff llywodraethu/Adroddiad gan Estyn yn gosod yr ysgol yng nghategori Mesurau Arbennig/Gwelliant Sylweddol |
| |
| 3. Cefndir a rhesymau dros wneud y cais, i gynnwys manylion pob cynnig o gymorth i'r ysgol/ymgynghori a wnaed cyn gwneud y cais i sefydlu BGI. |
| |
| 4. Dyddiad hysbysu'r Corff Llywodraethu am y tro cyntaf ynglŷn â'r cais i sefydlu BGI, yn cynnwys dyddiadau cyfarfodydd ymgynghori priodol a chofnodion cyfarfodydd perthnasol. |
| |
| 5. Ymateb y Corff Llywodraethu i'r cynnig BGI (neu atodwch ar wahân). |
| 6. Ymateb yr awdurdod esgobaethol i'r cynnig BGI (yn achos ysgol sefydledig neu wirfoddol sy'n ysgol yr Eglwys yng Nghymru neu'n ysgol yr Eglwys Gatholig) (neu atodwch ar wahân). |
| |
| 7. Yn achos unrhyw ysgol sefydledig neu wirfoddol arall, ymateb y person neu'r personau sy'n penodi llywodraethwyr sefydledig i'r cynnig. |
| |
| 8. Rhestr o aelodau arfaethedig y BGI, gydag amlinelliad cryno o'u haddasrwydd, eu sgiliau a'u profiad (neu atodwch ar wahân). |
| |
| 9. Hyd oes arfaethedig y BGI a chynlluniau ar gyfer strategaeth ymadael (neu atodwch ar wahân):<br>Llofnodwyd<br>Dyddiad<br>Enw Llawn<br>Swydd |

| |
|---|
| |
| **Rhan 2 i Gadeirydd y Llywodraethwyr ei llenwi** |
| Ydych chi'n cefnogi'r cais i sefydlu BGI? Ydw/Nac ydw<br>Os nad ydych, rhowch eich rhesymau isod (neu atodwch ar wahân):<br><br><br><br>Llofnodwyd:<br>Dyddiad:<br>Enw:<br>Swydd: |
| **Rhan 3 – I gynrychiolydd yr awdurdod penodi ei llenwi (lle bo'n berthnasol)**<br>Ydych chi'n cefnogi'r cais i sefydlu BGI? Ydw/Nac ydw<br>Os nad ydych, rhowch eich rhesymau isod (neu atodwch ar wahân):<br><br><br><br>Llofnodwyd:<br>Dyddiad:<br>Enw:<br>Swydd: |

**Cyfarwyddiadau ar gyfer llenwi'r ffurflen**

Dylai'r cefndir a'r rhesymau dros y cais amlinellu'r canlynol:
Hanes cryno'r materion gwella sy'n wynebu'r ysgol a'r prif gamau a roddwyd ar waith gan awdurdodau lleol dros y 3 blynedd diwethaf i ymdrin â nhw.

Barn yr awdurdodau lleol ar ymrwymiad a gallu'r corff llywodraethu i ymdrin â phroblemau a chymryd cyngor, er enghraifft, nodi a yw'n rhwystr i wella ysgol (ac os yw hyn yn fwriadol), a pham y mae'r awdurdod lleol yn teimlo y dylid ei newid.

Cwestiynau 4 a 5, 6, 7 – Wrth ateb y cwestiynau hyn, dylai'r awdurdod lleol nodi pa gamau y mae wedi eu cymryd i roi gwybod i'r corff llywodraethu/awdurdod esgobaethol/awdurdod penodi am ei fwriad i sefydlu BGI i gymryd ei le.

Dylai gofnodi adwaith/ymateb y corff llywodraethu/awdurdod esgobaethol i'r cynnig BGI; yn cynnwys natur a graddau ymgynghori ffurfiol (dylai hyn gynnwys tystiolaeth fod yr awdurdod lleol wedi rhoi gwybod i bob aelod o'r corff llywodraethu am eu bwriad i sefydlu BGI ac wedi caniatáu digon o amser i'r corff llywodraethu ymateb).

Os na cheir ymateb ffurfiol gan y corff llywodraethu, rhaid i'r awdurdod lleol ymdrechu i gynnwys llythyr gan Gadeirydd y Llywodraethwyr i gadarnhau bod ymgynghori wedi digwydd. Os nad yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn ymateb i'r cais hwn, rhaid i'r awdurdod lleol ddatgan yn eglur pam nad ydynt yn gallu darparu tystiolaeth o ymgynghori, er enghraifft, fod y corff llywodraethu yn gwrthod trafod y mater.

Cwestiwn 8 – Dylai'r ateb i'r cwestiwn hwn roi'r rhesymau pam y mae digon o allu gan yr aelodaeth arfaethedig i ganiatáu i Weinidogion Cymru deimlo'n hyderus y bydd yr ysgol yn gwneud y cynnydd angenrheidiol mewn modd amserol. Dylai'r aelodaeth arfaethedig adlewyrchu ystod o arbenigeddau a chynrychioli buddiannau gwahanol randdeiliaid. Dylai'r awdurdod lleol roi rhesymau o blaid y Cadeirydd a ddewiswyd ar gyfer y BGI; yn ddelfrydol, dylai fod yn berson sy'n annibynnol ar yr ysgol a'r awdurdod lleol.

**Cyngor pellach**

Dylai awdurdodau lleol nodi na ellir prosesu ceisiadau oni bai bod y prosesau statudol angenrheidiol wedi cael eu dilyn yn gywir, gan gynnwys y prosesau ar gyfer cyhoeddi hysbysiad rhybuddio (lle bo'n berthnasol), a chynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais i sefydlu BGI.


Yn ogystal, dylid nodi'r canlynol:

1. Dylai ceisiadau fod yn gryno gan gyflwyno tystiolaeth benodol ar ffurf atodiadau gyda chyfeiriadau.

2. Dylai'r awdurdod lleol allu dangos: bod gwelliant/adferiad yn fwy tebygol o ganlyniad i sefydlu BGI, bod camau priodol ac amserol wedi eu cymryd i gynorthwyo'r ysgol i fynd i'r afael â'i hanghenion gwella, bod ymgynghori priodol ac amserol wedi digwydd â'r Corff Llywodraethu ac awdurdodau perthnasol eraill e.e. yr Esgobaeth.

3. Lle bydd yr awdurdod lleol yn gweld sefydlu BGI fel modd o sefydlu trefniant llwyddiannus sy'n cydweithio er mwyn gwella'r ysgol, disgwylir bod yr awdurdod lleol wedi amlinellu manteision y trefniant cydweithredol yn llawn i'r Corff Llywodraethu, a'i bod yn eglur nad yw'r llywodraethwyr yn barod i gymryd y camau angenrheidiol i weithredu'r ateb hwn.

# Atodiad 3: Prosesau ar gyfer ysgolion sydd angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol



## Atodiad 4: Rhestr wirio camau gweithredu'r corff llywodraethu

- Adroddiad llafar ar gasgliadau'r arolygiad i uwch reolwyr yr ysgol. ☐
- Cael copi o'r adroddiad arolygu. ☐
- Copi o'r adroddiad a chrynodeb:

  - ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd; ☐
  - ar gael i unrhyw un sy'n gwneud cais am un; ☐
  - rhiant pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol yn cael copi o grynodeb yr adroddiad o fewn 10 diwrnod gwaith i'w dderbyn. ☐

- Paratoi Cynllun Gweithredu o fewn 45 diwrnod gwaith i dderbyn adroddiad arolygu. ☐
- Cyflwyno Cynllun Gweithredu drafft i Estyn am sylwadau o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y terfyn amser statudol. ☐
- Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu a Gytunwyd i'r canlynol:

  - Gweinidogion Cymru ☐
  - Estyn ☐
  - yr Awdurdod Lleol ☐

- Copi o'r Cynllun Gweithredu:

  - ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd; ☐
  - ar gael i unrhyw un sy'n gwneud cais am un; ☐
  - rhiant pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol yn cael copi o'r Cynllun Gweithredu neu grynodeb cyn gynted ag y bo'n ymarferol ☐

# Atodiad 5: Rhestr wirio camau gweithredu'r awdurdod lleol

Cael copi o'r adroddiad arolygu a'r crynodeb.

**Os <u>nad</u> yr awdurdod lleol yw'r awdurdod priodol**
(h.y. lle bo gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig):

- derbyn copi o Gynllun Gweithredu'r ysgol;
- yr Awdurdod Lleol yn paratoi datganiad ysgrifenedig o'r camau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn cynllun gweithredu corff llywodraethu'r ysgol
- yr Awdurdod Lleol yn ystyried defnyddio pwerau ymyrraeth i benodi llywodraethwyr ychwanegol, atal yr hawl i gyllideb ddirprwyedig neu benodi Bwrdd Gweithredol Interim.

**Os mai'r awdurdod lleol <u>yw'r</u> awdurdod priodol** (h.y. lle **nad** oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig) rhaid i'r awdurdod lleol:

***Adroddiad Arolygu***

- sicrhau bod rhiant pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol yn cael copi o grynodeb yr adroddiad o fewn 10 diwrnod gwaith i'w dderbyn;
- sicrhau bod copi o'r adroddiad archwilio a'r crynodeb ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd
- darparu copi o'r adroddiad arolygu llawn a'r crynodeb i unrhyw un sy'n gwneud cais am un;

***Cynllun Gweithredu***

- paratoi Cynllun Gweithredu o fewn 45 diwrnod gwaith i dderbyn yr adroddiad arolygu;
- cyflwyno'r Cynllun Gweithredu i Estyn am sylwadau o leiaf 10 diwrnod cyn y terfyn amser statudol;
- anfon copi o'r cynllun Gweithredu terfynol at y canlynol:

  - Gweinidogion Cymru
  - Estyn
  - corff llywodraethu'r ysgol

- Copi o'r Cynllun Gweithredu:

- ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd; ☐

- ar gael i unrhyw un sy'n gwneud cais am un; ☐

- neu gopi o'r crynodeb i riant pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ☐

***Pwerau ymyrraeth***

- Yr awdurdod lleol i ystyried a ddylid defnyddio pwerau ymyrraeth i benodi llywodraethwyr ychwanegol, atal yr hawl i gyllideb ddirprwyedig neu benodi Bwrdd Gweithredol Interim. ☐